General Optical Council

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2024



# Adroddiad Blynyddol, Adroddiad Addasrwydd i Ymarfer Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

Wedi'i gofrestru fel elusen gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (Rhif cofrestru'r elusen 1150137)

Cyflwynwyd i Senedd y DU yn unol ag adran 32A(2) o Ddeddf Optegwyr 1989 fel y'i diwygiwyd gan atodlen 2 paragraff 3 i Orchymyn Gofal Iechyd a Phroffesiynau Cysylltiedig (Diwygiadau Amrywiol) 2008

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon, e-bostiwch communications@optical.org neu ffoniwch ni ar 020 7580 3898.

© Hawlfraint 2024 Y Cyngor Optegol Cyffredinol

Cedwir pob hawl.

Gwaherddir unrhyw gopïo, llogi, benthyca neu ddosbarthu a bydd gwneud hynny heb ganiatâd yn gyfystyr â thor-hawlfraint. Rhoddir caniatâd i atgynhyrchu at ddefnydd personol ac addysgol yn unig.

**ISBN: 978-1-5286-5003-8**
**E-Number: E03138992**

General Optical Council

# Cynnwys


## Cyflwyniad

4 Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

6 Am y Cyngor Optegol Cyffredinol

ADRAN 1

## Sut Rydym yn Sicrhau Budd i'r Cyhoedd

9 Ein Cenhadaeth a'n Hamcanion Strategol

10 Uchafbwyntiau 2023/24

13 Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25

16 Ein rheolaethau mewnol, ein swyddogaeth archwilio a'n dull rheoli risg

19 Ein pobl

20 Ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu a rheoli

26 Manylion cyfeirio a gweinyddol

ADRAN 2

## Ein Hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer

27 Ein Hadroddiad Addasrwydd i Ymarfer

ADRAN 3

## Cyfrifon

30 Ein Hadroddiad Cyllid

General Optical Council

# Neges gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr



**Dr Anne Wright CBE**
*Cadeirydd*



**Leonie Milliner**
*Prif Weithredwr a Chofrestrydd*

## Mae'n bleser gennym gyflwyno adroddiad blynyddol a chyfrifon y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer 2023-24, sy'n nodi sut rydym wedi cyflawni ein rhwymedigaethau statudol fel rheoleiddiwr ac elusen.

Mae gan 2023-24 lawer o bethau i fod yn falch ohonynt. Hoffem ddiolch i'n holl gydweithwyr am eu gwaith caled a'u cyfraniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Gwnaethom gyrraedd pob un o'r 18 o Safonau Rheoleiddio Da gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA) am yr ail flwyddyn yn olynol. Diolch i'n holl staff, ein Cyngor a'n haelodau a'n helpodd ni i gyflawni hyn. Roeddem yn arbennig o falch bod adroddiad y PSA yn cydnabod ein cynnydd o ran lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i gwblhau achosion addasrwydd i ymarfer a'n gwaith i gyflawni ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Gwnaeth cyfanswm o 12 o ddarparwyr addysg addasu eu cymwysterau presennol i fodloni ein gofynion addysg a hyfforddiant diweddaraf ar gyfer carfannau hydref 2023. Rydym yn parhau i weithio gyda gweddill y darparwyr i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Gwnaethom ddechrau ar flwyddyn olaf y cylch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) cyntaf o dan y cynllun newydd. Yn dilyn adolygiad o'r cynllun, gwnaethom benderfynu y byddai cofrestreion sydd ag arbenigedd, fel optegwyr lensys cyffwrdd ac optometryddion sydd â hawliau presgripsiynu, yn gallu cael pwyntiau arbenigedd drwy DPP hunangyfeiriedig.

Ymunodd wynebau newydd â'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn 2023-24 hefyd. Penodwyd Carole Auchterlonie yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio i

reoli ein swyddogaethau addasrwydd i ymarfer. Ymunodd yr Athro Hema Radhakrishnan â'n Cyngor fel aelod sy'n gofrestrai, gan gynnig cyfoeth o brofiad ym meysydd academia a gwaith ymchwil.


Wynebwyd rhai heriau yn ystod y flwyddyn hefyd. Gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad monitro addysg blynyddol, a ddaeth i'r casgliad bod darparwyr yn dal i wynebu nifer o broblemau oherwydd pandemig COVID-19, gan gynnwys: optegwyr ar y stryd fawr yn wynebu effeithiau parhaus o ran y cyflenwad o leoliadau; mwy na'r arfer o fyfyrwyr yn peidio â chamu ymlaen oherwydd mesurau lliniaru a roddwyd ar waith, fel graddau a asesir gan athrawon; methiant i gynnig lleoliadau gofynnol o ganlyniad i gynlluniau'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer adfer ar ôl COVID-19; a'r effaith gorfforol a meddyliol barhaus ar fyfyrwyr a staff.

Canfu ein harolwg cofrestreion ar gyfer 2023-24 fod llawer o weithwyr optegol proffesiynol yn wynebu bwlio, aflonyddu, cam-drin neu wahaniaethu yn y gweithle. Mewn ymateb i hynny, gwnaethom weithio gyda sefydliadau eraill yn y sector optegol, gan gynnwys cyrff proffesiynol, i gyhoeddi datganiad ar y cyd yn ymrwymo i beidio â goddef bwlio, aflonyddu, cam-drin na gwahaniaethu yn yr un amgylchedd gwaith. Byddwn yn parhau i fonitro'r ddau fater hyn.

Yr adroddiad blynyddol hwn fydd yr olaf o dan ein strategaeth "Addas ar gyfer y Dyfodol". Wrth i ni droi ein sylw at yr hyn a ddaw nesaf, rydym wedi lansio ymgynghoriad ar strategaeth gorfforaethol ddrafft newydd ar gyfer 2025-30, sy'n cynnwys datganiadau gweledigaeth a chenhadaeth newydd. Mae ein datganiad gweledigaeth newydd arfaethedig – 'Gofal llygaid diogel ac effeithiol i bawb' – yn canolbwyntio ar yr hyn rydym yn ceisio ei gyflawni ar gyfer y cyhoedd. Rydym wedi diweddaru ein datganiad cenhadaeth er mwyn iddo adlewyrchu'r derminoleg sy'n newid yn y sector – 'Diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel mewn gwasanaethau gofal llygaid.' Caiff y strategaeth ei hategu gan dri amcan strategol: creu gwasanaethau gofal llygaid tecach a mwy cynhwysol; cefnogi arloesedd cyfrifol a diogelu'r cyhoedd; ac atal niwed drwy reoleiddio ystwyth. Drwy ein strategaeth newydd, ein nod yw newid ein ffordd o weithredu fel rheoleiddiwr i ddod yn fwy ystwyth mewn ymateb i ddatblygiadau ym meysydd technoleg, modelau busnes, a'r gweithlu ac atal niwed cyn iddo godi – a hynny i gyd er mwyn gweithio tuag at ofal llygaid mwy diogel ac effeithiol i bawb.



**Dr Anne Wright CBE**
*Cadeirydd*



**Leonie Milliner**
*Prif Weithredwr a Chofrestrydd*





# Gwybodaeth amdanom ni

## Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y Deyrnas Unedig (y DU).

Ein diben elusennol a'n rôl statudol yw diogelu a hybu iechyd a diogelwch y cyhoedd drwy hyrwyddo safonau uchel o ran addysg, ymddygiad a pherfformiad proffesiynol ymhlith optometryddion ac optegwyr cyflenwi, y rhai sy'n hyfforddi i fod yn optometryddion ac yn optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol sy'n cynnal busnes ym maes optometreg neu opteg cyflenwi yn y DU.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd 33,705 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, optegwyr dan hyfforddiant a busnesau optegol ar ein cofrestr. Rydym yn adrodd ar wahân ar yr amrywiaeth ymhlith ein cofrestreion a'r cofrestreion sy'n destun ymchwiliadau addasrwydd i ymarfer. Mae'r adroddiad ar gael ar ein gwefan: Adroddiad Monitro Perfformiad o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

### Mae gennym bedair swyddogaeth graidd:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad;
- cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru;
- cadw cofrestr o unigolion sy'n gymwysedig ac yn addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr cyflenwi;
- ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

### CYFANSWM Y COFRESTREION YM MHOB UN O GATEGORÏAU'R CYNGOR OPTEGOL CYFFREDINOL

| | 31-3-2024 | | 31-3-2023 | | 31-3-2022 | | 31-3-2021 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Optometrydd | 17,698 | 52% | 17,401 | 52% | 16,932 | 51% | 16,267 | 50% |
| Optegydd cyflenwi | 6,594 | 20% | 6,912 | 21% | 7,060 | 21% | 7,190 | 22% |
| Optometrydd dan hyfforddiant | 5,307 | 16% | 5,145 | 15% | 4,990 | 15% | 4,640 | 14% |
| Optegydd cyflenwi dan hyfforddiant | 1,254 | 4% | 1,267 | 4% | 1,331 | 4% | 1,383 | 4% |
| Busnes cofrestredig | 2,852 | 8% | 2,921 | 9% | 2,861 | 9% | 2,796 | 9% |
| CYFANSWM | 33,705 | 100% | 33,646 | 100% | 33,174 | 100% | 32,276 | 100% |

## Y FFI FLYNYDDOL I GOFRESTREION

| | 2023/2024 | 2022/2023 | 2021/2022 | 2020/2021 | 2019/2020 | 2018/2019 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Optometryddion | £380 | £360 | £360 | £360 | £350 | £340 |
| Optegwyr cyflenwi | £380 | £360 | £360 | £360 | £350 | £340 |
| Cyrff corfforaethol | £380 | £360 | £360 | £360 | £350 | £340 |
| Myfyrwyr | £30 | £30 | £30 | £30 | £30 | £30 |
| Ffi incwm isel | £260 | £260 | £260 | £260 | £250 | £240 |

### Ein hincwm

Daw'r rhan fwyaf o'n hincwm o ffioedd cofrestru ac fe'i defnyddir i hyrwyddo ein diben elusennol. Mae'r tabl isod yn nodi'r ffioedd y mae'n ofynnol i gofrestreion eu talu er mwyn ymuno â'r gofrestr neu aros arni.

Am dair blynedd, o 2019/20 tan 2022/23, roedd ffioedd cofrestru wedi'u rhewi ar £360. Yn 2023/24, gwnaethom gynyddu ffioedd cofrestru £20 ar gyfer optometryddion, optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforaethol, sef cynnydd is na chwyddiant o 5.56%. Ni fu newid yn y ffioedd ar gyfer myfyrwyr a bu cynnydd o £20 yn y disgownt ar gyfer ffioedd incwm isel, o £100 i £120, sy'n golygu bod y ffi incwm isel wedi aros ar £260. Nid yw'r ffioedd i fyfyrwyr wedi cynyddu ers 2017/18.

### Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn nodi'r gweithgareddau rydym wedi'u cynnal rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 er mwyn cyflawni ein rôl statudol a'n diben elusennol, a datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, mae'r ymddiriedolwyr wedi cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011 a'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'r datganiadau yn y fformat sy'n ofynnol yn ôl Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (SORP 2019) FRS 102. Rydym wedi cydymffurfio â chanllawiau Deddf Elusennau 2011 i roi sylw dyledus i'r canllawiau budd cyhoeddus a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau wrth benderfynu ar y gweithgareddau a gyflawnir gennym.





ADRAN 1

# SUT RYDYM YN SICRHAU BUDD I'R CYHOEDD

# Ein Cenhadaeth a'n Hamcanion Strategol

## Ein cenhadaeth yw diogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau uchel yn y proffesiynau optegol.

Mae ein strategaeth pum mlynedd 'Addas ar gyfer y Dyfodol' ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2025 yn disgrifio'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud i gyflawni ein gweledigaeth o gael ein cydnabod am fod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Mae'r adran hon o'n hadroddiad blynyddol yn disgrifio sut y gwnaethom sicrhau budd i'r cyhoedd ym mhedwaredd flwyddyn ein cynllun strategol ac yn amlinellu ein rhaglen uchelgeisiol o waith a buddsoddiad mewn prosiectau strategol wrth i ni ddechrau ar ei blwyddyn olaf.

Mae ein blaenoriaethau wedi'u trefnu o dan y tri amcan strategol canlynol ac maent yn sicrhau ein bod yn cynnig budd i'r cyhoedd drwy ein gwaith:

**CYFLAWNI**
**ARFERION RHEOLEIDDIOL O'R BYD**

**ADEILADU**
**DIWYLLIANT O WELLIANT PARHAUS**

**TRAWSNEWID**
**GWASANAETH CWSMER**

# Uchafbwyntiau 2023/24



## Diweddaru ein Safonau Ymarfer i wella diogelwch y cyhoedd

Gwnaethom lansio adolygiad o'n Safonau Ymarfer er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r diben a'u bod yn adlewyrchu'r cyd-destun presennol y mae cofrestreion yn ymarfer ynddo, myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ynddo, a busnesau'n gweithredu ynddo. Fel rhan o'r adolygiad, gwnaethom gynnal cyfres o sgyrsiau rhanddeiliaid â chofrestryddion a sefydliadau optegol, a chomisiynu gwaith ymchwil i farn cleifion a'r cyhoedd ar y Safonau. Gwnaethom ddefnyddio'r adborth hwn fel sail i ddiwygio'r Safonau, sef proses y gwnaethom ymgynghori arni rhwng mis Chwefror a mis Mai 2024.

Roedd ein cynigion yn cynnwys newidiadau i wella diogelwch y cyhoedd, fel cryfhau'r safonau mewn perthynas â gofal cleifion mewn amgylchiadau bregus a defnyddio technoleg a deallusrwydd artiffisial wrth roi gofal. Hefyd, mae safonau newydd wedi cael eu hychwanegu er mwyn gosod disgwyliadau clir mewn perthynas â rheoli clefydau trosglwyddadwy ac aflonyddu rhywiol.

## Rhoi gofynion wedi'u diweddaru ar waith ar gyfer addysg a hyfforddiant

Gwnaethom weithio'n agos gyda phrifysgolion a darparwyr addysg eraill i roi ein gofynion addysg a hyfforddiant wedi'u diweddaru ar waith ar gyfer y cymwysterau a gymeradwyir gennym. Gwnaeth 12 o gymwysterau cymeradwy mewn optometreg addasu eu rhaglenni i fodloni ein gofynion addysg a hyfforddiant newydd, a oedd yn golygu bod 60% o fyfyrwyr optometreg blwyddyn gyntaf wedi ymuno â'r rhaglenni gradd meistr integredig pedair blynedd newydd ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Gwnaethom hefyd barhau i gefnogi darparwyr wrth iddynt ddylunio cymwysterau newydd neu wedi'u haddasu er mwyn bodloni'r gofynion newydd drwy ein cymorth ariannol parhaus i Bartneriaeth y Sector ar gyfer Gwybodaeth ac Addysg Optegol (SPOKE), a gomisiynwyd gennym yn 2021. Roedd gwaith SPOKE eleni yn cynnwys cyhoeddi canllawiau ar sut i adeiladu ar arferion presennol ym maes goruchwylio a'u gwella yn ystod y broses o newid i'r gofynion newydd a Chanllawiau Dangosol ar gyfer Optegwyr Lensys Cyffwrdd a Phresgripsiynwyr Annibynnol.

Bydd y gofynion addysg a hyfforddiant yn sicrhau bod y cymwysterau a gymeradwyir gennym yn addas i'r diben, yn diwallu anghenion cleifion a defnyddwyr gwasanaethau ac yn sicrhau bod gan weithwyr optegol proffesiynol y lefel ddisgwyliedig o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad a'r hyder a'r galluogrwydd i addasu yn unol â newidiadau i rolau yn y dyfodol, cwmpasau ymarfer ac ailddylunio gwasanaethau ym mhedair gwlad y DU.

## Helpu i fodloni gofynion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy weithredu Safonau'r Gymraeg

Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae ein gwefan bellach ar gael yn Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf o'r dogfennau sydd ar gael ar y wefan yn Saesneg wedi cael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Rydym hefyd wedi diweddaru ein llinell ffôn i gynnwys opsiynau yn Gymraeg.

Rydym wedi rhoi prosesau mewnol newydd ar waith i sicrhau y bydd dogfennau allweddol sy'n ymwneud â diogelu'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg o hyn ymlaen ac rydym wedi hyfforddi'r holl staff ar sut i ymdrin ag unrhyw ymholiadau a geir yn Gymraeg.

## Galw'r sector ynghyd i gefnogi camau gweithredu ar faterion uchel eu proffil

Dangosodd ein Harolwg Cofrestreion yn 2023 fod cofrestreion yn dweud eu bod wedi wynebu lefelau sylweddol o fwlio, aflonyddu, cam-drin a gwahaniaethu yn y gwaith. Roedd y canfyddiadau hyn yn destun pryder mawr i ni, felly, mewn ymateb i hynny, gwnaethom gynnal cyfarfod gyda chyrff proffesiynol a chyrff aelodaeth er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mewn cytundeb â sefydliadau optegol eraill, gwnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd yn ymrwymo i beidio â goddef bwlio, aflonyddu, cam-drin na gwahaniaethu yn yr un amgylchedd gwaith. Byddwn yn parhau i weithio ochr yn ochr â'r sector optegol i sicrhau bod holl aelodau timau yn cael y cymorth a'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i hyrwyddo a gwreiddio amgylchedd gwaith cadarnhaol.

## Cyrraedd holl Safonau Rheoleiddio Da y PSA am yr ail flwyddyn yn olynol

Am yr ail flwyddyn yn olynol, gwnaethom gyrraedd pob un o 18 o Safonau Rheoleiddio Da yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA), gan roi sicrwydd i gleifion, y cyhoedd a chofrestreion ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio'n effeithiol. Tynnodd adroddiad y PSA sylw at gynnydd mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys ein gwelliannau o ran symud achosion addasrwydd i ymarfer ymlaen yn brydlon, yn ogystal â chydnabod y rhaglen waith bellach y byddwn yn ymgymryd â hi er mwyn adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u gwneud.

## Cydnabyddiaeth am sicrhau Rhagoriaeth mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid

Fel rhan o'n gweledigaeth i gael ein cydnabod am fod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf a darparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog, gwnaethom gyrraedd y Safon Rhagoriaeth i Gwsmeriaid, sef nod ansawdd annibynnol sy'n cydnabod ffocws ar gwsmeriaid mewn sefydliadau. Er mwyn cyrraedd y Safon, bu'n rhaid i ni fodloni 57 o elfennau mewn pum maes, gan gynnwys: cyflawni, ansawdd, gwybodaeth, proffesiynoldeb, a staff. Hefyd, tynnwyd sylw at nifer o feysydd lle y gallem ddatblygu ein gwasanaeth cwsmeriaid ymhellach, felly byddwn yn parhau i weithio tuag at roi'r argymhellion hyn ar waith yn y flwyddyn i ddod.

## Datblygu ein gwybodaeth am y sector optegol



Mewn ymateb i adborth gan gofrestreion, gwnaethom barhau i feithrin ein dealltwriaeth gyfunol o ddarpariaeth gofal optegol drwy ymweld â gwahanol bractisau ledled y DU fel rhan o'n 'rhaglen ymgyfarwyddo optegol'. Ers ei sefydlu ym mis Ionawr 2022, mae'r rhaglen wedi cynnwys ymweliadau ag amrywiaeth eang o randdeiliaid yn y sector, gan gynnwys adran llygaid ysbyty, carchar, gwneuthurwr offer optegol yn ogystal â phractisau optegol mawr a bach.

Y llynedd, ymwelodd tua 144 o staff ac aelodau â phractisau a gwneuthurwyr optegol. Mae pob ymweliad wedi rhoi cipolwg gwerthfawr a fydd yn ddefnyddiol i'n gwaith, a byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn yn y flwyddyn i ddod.

## Tynnu rhywedd oddi ar y gofrestr gyhoeddus

Yn ystod hydref 2023, gwnaethom ymgynghori ar b'un a ddylid tynnu gwybodaeth am rywedd cofrestrai oddi ar y gofrestr gyhoeddus ai peidio, gan nad oes gofyniad o dan Ddeddf Optegwyr 1989 na Rheolau Cofrestru 2005 i gyhoeddi gwybodaeth am rywedd cofrestrai. O ganlyniad i hynny, cafodd cynnig i dynnu gwybodaeth am rywedd cofrestrai oddi ar y gofrestr gyhoeddus ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2024 ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn fewnol i reoli'r newid hwn.

## Ein hymrwymiad parhaus i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac rydym yn ystyried y mater yn rhan ganolog o'n gwaith fel rheoleiddiwr ac fel cyflogwr cyfrifol. Rydym wedi myfyrio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran rhoi ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2020-24 ar waith, ac wedi nodi ble y gallwn wella. Roedd hyn yn cynnwys comisiynu adolygiad o'n perfformiad a'n cynllun o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, a oedd yn sail i'n cynllun gweithredu newydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2024-25. Bydd y cynllun gweithredu hwn yn ein galluogi i osod y sylfeini ar gyfer strategaeth uchelgeisiol ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2025-30. Bydd adroddiad blynyddol ar wahân yn ymdrin â'n gwaith yn y maes hwn, ond ymhlith y cyflawniadau allweddol mae canmoliaeth gan y PSA am ein perfformiad yn erbyn ein cynllun gweithredu ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2020-24 a'r ffordd rydym yn casglu, dadansoddi a chyhoeddi data ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Buddsoddi yn ein Trawsnewid Digidol

Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn diweddaru ein hamgylchedd digidol. Mae hyn yn cynnwys comisiynu System Rheoli Achosion (CMS) newydd a fydd yn ein helpu i reoli ein llwyth achosion addasrwydd i ymarfer yn fwy effeithlon, gan awtomeiddio llawer o swyddogaethau a'n helpu i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog. Gwnaethom benodi CitizenLab yn ddarparwr llwyfan ymgynghori newydd sy'n cynnig nodweddion newydd er mwyn ymgysylltu'n well a helpu i ddadansoddi ymatebion. Gwnaethom hefyd osod offer clyweledol modern yn ein Hystafell Wrandawiadau ac mewn dwy o'n hystafelloedd cyfarfod, a fydd o fudd i'r rhai a fydd yn bresennol mewn gwrandawiadau neu gyfarfodydd o bell, gan ein helpu i leihau costau a gwneud ein gwaith yn fwy hygyrch. Mae gwaith yn dal i fynd rhagddo i foderneiddio ein systemau teleffoni, cyflogres ac adnoddau dynol a gwella llwyfan MyGOC.

Rydym hefyd wedi llwyddo i ennill achrediad Cyber Essentials a Cyber Essentials Plus, sef ardystiadau Seiberddiogelwch Cenedlaethol sy'n helpu sefydliadau i asesu a gwella eu cyflwr o ran seiberddiogelwch. Drwy gael ardystiad Cyber Essentials Plus, rydym yn dangos ein hymrwymiad i gynnal mesurau seiberddiogelwch cadarn, gan ddiogelu ein hunain, ein staff a'n cwsmeriaid rhag y bygythiadau mwyaf cyffredin ar-lein.

# Ein Cynlluniau ar gyfer 2024/25

## Mae ein cynllun strategol pum mlynedd "Addas ar gyfer y Dyfodol" yn cynnwys sawl darn pwysig o waith, y mae rhai ohonynt wedi ymestyn dros flynyddoedd, a bwriedir iddynt ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a'r busnesau a reoleiddir gennym.

Blwyddyn ariannol 2024-25 yw blwyddyn olaf ein cynllun strategol pum mlynedd. Dyma benllanw rhaglen o fuddsoddi strategol yn ein trawsnewid digidol a phobl, a hefyd yng ngwelliant parhaus ein gweithgareddau rheoleiddio, sy'n ceisio cyflawni ein gweledigaeth o gael ein cydnabod am fod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf a darparu gwasanaeth cwsmeriaid ardderchog.

### Diogelu'r cyhoedd wrth galon popeth a wnawn

Mae hyn yn cynnwys y gwaith a wnawn i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a'r busnesau a reoleiddir gennym, gan ganolbwyntio o'r newydd ar gynnig gwasanaethau o safon uchel i'n cofrestreion a helpu gweithwyr gofal llygaid proffesiynol i gyfrannu at eu galluogrwydd proffesiynol llawn er budd pennaf cleifion.

Rhaid i'r cyhoedd fod â hyder yn ein gallu i'w diogelu, a rhaid i'n cofrestreion ystyried ein bod yn deg ac yn gymesur yn y penderfyniadau a wnawn.

Rydym yn cyflawni hyn drwy gadw cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu i hyfforddi, a chadw cofrestr o gyrff corfforaethol sy'n addas i gynnal busnes. Mae hyn yn cynnwys rheoli prosesau adnewyddu myfyrwyr a chofrestreion yn flynyddol.



Byddwn yn parhau i gynnal prosesau teg, cymesur ac effeithlon ar gyfer ymchwilio i bryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer, gan gynnwys y canlynol:

- parhau i wreiddio gwelliannau yn ein prosesau brysbennu a gwaith achos i gyflymu ymchwiliadau;
- cynnal adolygiad o effeithlonrwydd gweithrediadau gwrandawiadau i ganfod cyfleoedd i fod yn fwy cost-effeithiol wrth gynnal diogelwch y cyhoedd;
- diweddaru ein canllawiau ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys canllawiau ar sancsiynau dangosol;
- lansio system rheoli achosion electronig newydd er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli ein proses gwaith achos yn gadarn o'r dechrau i'r diwedd;
- rhannu'r hyn a ddysgir o ganlyniadau achosion addasrwydd i ymarfer â chofrestreion drwy ein bwletin addasrwydd i ymarfer er mwyn gwreiddio arferion da.

## Cynnal y safonau proffesiynol uchaf



Rydym yn bwriadu cwblhau ein hadolygiad o'n safonau ar gyfer cofrestreion sydd wedi cymhwyso'n llawn a chofrestreion sy'n fyfyrwyr i sicrhau eu bod yn addas i'r diben, a'u bod yn adlewyrchu'r cyd-destun presennol y mae cofrestreion yn ymarfer ynddo, myfyrwyr yn cael eu hyfforddi ynddo, a busnesau'n gweithredu ynddo.

Dechreuodd y broses hon y llynedd, pan fuom yn ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, cleifion a'r cyhoedd, ar amrywiaeth o bynciau sy'n ymwneud â'n safonau, gan gynnwys ymddygiad yn y cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein, cynnal ffiniau

proffesiynol, arweinyddiaeth a dirprwyo a goruchwylio. Gwnaethom lansio ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror 2024 ar y Safonau Ymarfer newydd arfaethedig ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi, y Safonau ar gyfer Myfyrwyr Optegol, a diwygiadau canlyniadol i'r Safonau ar gyfer Busnesau Optegol.

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion yn drylwyr, cyn drafftio'r setiau terfynol o safonau. Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r safonau diwygiedig yn ystod hydref 2024.

## Datblygu'r maes rheoleiddio busnes

Dim ond tua hanner y busnesau optegol yn y DU sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ac mae hyn yn creu bwlch rheoleiddio lle y gall cleifion gael eu diogelu wrth ddefnyddio un busnes ar y stryd fawr leol, ond ni fyddant yn cael eu diogelu wrth ddefnyddio'r busnes drws nesaf. Ceir consensws cyffredinol ymhlith cyrff y sector o blaid ein polisi y dylai pob busnes sy'n cynnal gweithgareddau cyfyngedig (fel profion golwg, gosod lensys cyffwrdd, gwerthu teclynnau optegol i blant o dan 16 oed a'r rhai sydd wedi'u cofrestru fel pobl ag amhariad ar y golwg, a gwerthu lensys cyffwrdd di-bresgripsiwn) fod wedi'u cofrestru â ni.

Rydym wrthi'n datblygu model newydd o reoleiddio busnesau optegol ar hyn o bryd. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar unrhyw fodel a weithredir gennym, ac mae'n

debygol y bydd angen newid deddfwriaethol i Ddeddf Optegwyr 1989. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i ddatblygu fframwaith drafft ar gyfer rheoleiddio busnesau cyn ymgynghori â'r cyhoedd, a fydd yn ein galluogi i symud yn gyflym wrth weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i foderneiddio ein fframwaith deddfwriaethol a chau'r bwlch rheoleiddio hwn.

## Addysg a Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Eleni fydd y flwyddyn olaf yng nghylch tair blynedd cyntaf ein cynllun Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) newydd a mwy hyblyg, sy'n rhoi mwy o gyfrifoldeb i gofrestreion dros eu dysgu a'u datblygiad eu hunain a'u gallu i deilwra eu cwmpas ymarfer personol eu hunain. Eleni, am y tro cyntaf, bydd yn ofynnol i'r cofrestreion gwblhau ymarfer myfyriol, a byddwn yn cefnogi hyn drwy rannu amrywiaeth o adnoddau.

Ar ôl cyflwyno'r gofynion addysg a hyfforddiant newydd, bydd darparwyr cymwysterau a gymeradwyir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn parhau i gyflwyno eu cynlluniau i fodloni ein gofynion newydd, a byddwn yn eu hadolygu a'u nodi. Tra bydd darparwyr yn addasu eu cymwysterau i fodloni ein gofynion newydd, byddwn yn parhau i sicrhau ansawdd cymwysterau a gymeradwyir gan y Cyngor Optegol Cyffredinol yn erbyn y llawlyfrau sicrhau ansawdd presennol a pharatoi ar gyfer cyflwyno ein Dull Sicrhau a Gwella Ansawdd newydd ar gyfer y cymwysterau hynny sydd bellach yn bodloni'r gofynion addysg a hyfforddiant.



Byddwn yn parhau i helpu'r sector i drefnu ac ymateb i'r newidiadau rydym wedi'u gwneud i gymwysterau a gymeradwyir gennym drwy ein cymorth ariannol parhaus i SPOKE, a byddwn yn parhau i gadeirio Grŵp Llywio Gweithredu Strategol y Sector a rhoi cymorth gweinyddol iddo.

Rydym hefyd yn disgwyl cytuno ar brosesau newydd ar gyfer llwybrau rhyngwladol at gofrestru o dan y gofynion addysg a hyfforddiant ar ôl ein hymgynghoriad cyhoeddus y llynedd.

## Edrych tua'r dyfodol a strategaeth newydd ar gyfer 2025-2030

Mae ein strategaeth newydd yn amlinellu ein cenhadaeth a'n hamcanion strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, gan anelu at barhau i lwyddo fel rheoleiddiwr sy'n perfformio'n dda, adeiladu ar ein cryfderau a'r meysydd lle rydym yn dymuno gwella, a nodi ein gweledigaeth ar gyfer newid. Ein huchelgais o hyd yw bod yn rheoleiddiwr o'r radd flaenaf – yn ystwyth, yn gadarn ac yn effeithiol wrth gyflawni ein cyfrifoldebau rheoleiddio, yn uchel ein parch ymhlith rhanddeiliaid ac yn parhau i fodloni holl safonau rheoleiddio da y PSA.

Caiff y strategaeth newydd ei hategu gan strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, strategaeth ariannol, strategaeth ddigidol, cynllun pobl, a fframwaith adrodd ar berfformiad busnes.

Byddwn yn cynnal gweithdrefnau llywodraethu cadarn, gan gynnwys rhoi argymhellion ein hadolygiad llywodraethu ar waith, ymgymryd â holl benodiadau aelodau, a chefnogi gwaith ein Cyngor a phwyllgorau er mwyn sicrhau eu bod yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau ac yn canfod a rheoli unrhyw risg yn briodol.

Byddwn yn parhau â'n dyletswydd gyhoeddus a'n hymrwymiad i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, sy'n sail i'n holl waith, gan gynnwys cyflawni ein strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a'n hadroddiad blynyddol ar y ffordd y caiff cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant eu gwreiddio ym mhob rhan o'r sefydliad.

# Ein rheolaethau mewnol, ein swyddogaeth archwilio a'n dull rheoli risg

## Rheolaethau mewnol

Y tîm llywodraethu sy'n gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â'n polisïau a'n gweithdrefnau, a chynghori ac adrodd ar hynny. Mae hyn yn cynnwys cynghori ar y polisi rheoli buddiannau, monitro ceisiadau llywodraethu gwybodaeth, ymateb i gwynion corfforaethol ac atgyfeiriadau codi llais (a elwir hefyd yn chwythu'r chwiban) a gweithgareddau cysylltiedig eraill.

Mae tair haen i'n polisi cwynion corfforaethol, a'r gyntaf yw ymateb gwasanaeth. Yn dilyn hyn, mae gan achwynwyr hawl i atgyfeirio'r gŵyn i gam dau a gwneud cais am apêl cam tri os bydd yn credu nad yw'r gŵyn wedi cael ei datrys yn ddigonol ar gam dau.

Yn 2023-24, cawsom:

- saith cais am adolygiad cam dau, y cafodd tri ohonynt eu cadarnhau'n rhannol, ac na chafodd pedwar ohonynt eu cadarnhau;
- pedwar cais am apêl cam tri, y cafodd un ohonynt ei gadarnhau'n rhannol ac na chafodd tri ohonynt eu cadarnhau.

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y cwynion corfforaethol a gawn gan y cyhoedd a chofrestreion eleni (chwe chŵyn cam dau ac un apêl cam tri yn 2022/23) er nad yw'n ddigon sylweddol i awgrymu tuedd sylfaenol o ran boddhad cwsmeriaid. Caiff mwy o gwynion eu hatgyfeirio ymlaen i apêl cam tri na'r nifer yn 2022/23 er nad yw hyn yn cyfateb i fwy o gwynion yn cael eu cadarnhau yn yr adolygiad cam tri. Un o'r themâu cyffredin a ddaw i'r amlwg o'r cwynion sydd wedi dod i law yw methiant ymddangosiadol i ymdrin yn briodol â phryderon unigol drwy gamau rheoleiddio. Nid yw'r un o'r cwynion hyn wedi cael eu cadarnhau, ond rydym wedi cymryd gofal i egluro ein rôl fel rheoleiddiwr a chyfeirio at ddulliau eraill o ddatrys cwynion lle bo rhai ar gael (fel y Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol). Lle y cafodd cwynion eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol, mae'r gwersi a ddysgwyd wedi cael eu rhaeadru i reolwyr er mwyn gwella ein gwasanaethau. Y rheswm mwyaf cyffredin dros gadarnhau'r cwynion hyn yn rhannol yw'r ffaith ein bod wedi rhannu gwybodaeth yn wael, yn enwedig o ran prydlondeb. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd wrthi'n datblygu ei siarter gwasanaeth cwsmeriaid fel rhan o'i raglen newid strategol,






a bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn ymateb yn gyson i ymholiadau gan gofrestreion.

Mae gennym hefyd bolisïau codi llais ar gyfer staff a chofrestreion. Cyfeirir at y rhain weithiau fel polisïau chwythu'r chwiban mewn sefydliadau eraill. Cawsom 10 atgyfeiriad yn 2023/24. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o gymharu â nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd yn 2022/23 – pan mai dim ond un atgyfeiriad a ddaeth i law. O'r 10, roedd pedwar atgyfeiriad yn ymwneud â thrydydd partïon. Cafodd un ei wneud yn ddienw drwy lythyr heb ddim gwybodaeth gyswllt, ac nid oedd yn datgelu digon o wybodaeth er mwyn cynnal ymchwiliad. Roedd un arall y tu allan i gylch gwaith y Cyngor Optegol Cyffredinol fel rheoleiddiwr ac roedd dau yn ymwneud â darparwr addysg a chafodd camau dilynol eu cymryd drwy'r dulliau ffurfiol sydd ar gael i'r Cyngor Optegol Cyffredinol. Roedd chwe atgyfeiriad yn ymwneud â staff neu wedi'u gwneud gan staff yn 2023/24. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn gysylltiedig â materion penodol sy'n ymwneud â chysylltiadau â chyflogeion. Cawsant eu hasesu ac ymchwiliwyd yn ffurfiol i'r rhai a oedd yn cyrraedd y trothwyon angenrheidiol. Lle na chyrhaeddwyd y trothwy, rhoddwyd adborth i'r rhai a oedd yn codi llais a chawsant eu cyfeirio at opsiynau eraill. Ystyrir bod y cynnydd yn y defnydd o'r polisi ymhlith y cyhoedd, cofrestreion a staff yn galonogol, gan fod hyn yn awgrymu bod mwy o ymwybyddiaeth o bwysigrwydd codi llais. Yn ystod 2024-25, bydd y polisi codi llais ar gyfer staff yn newid yn gynllun rhyddid i godi llais, a bwriad hyn yw efelychu arferion gorau fel y'u nodir gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Gwladol.

## Swyddogaeth archwilio mewnol

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid yn cefnogi'r Cyngor drwy adolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol y Cyngor Optegol Cyffredinol. Ymhlith ei gyfrifoldebau mae penodi'r archwilydd mewnol, cymeradwyo'r cynllun archwilio blynyddol ac adolygu canlyniadau'r archwiliadau a gynhaliwyd. Mae hefyd yn cael adroddiad blynyddol gan y swyddogaeth archwilio mewnol.

Yn 2023/24, yr archwilydd mewnol oedd TIAA. Cafodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid yr adroddiad blynyddol ar 14 Mai 2024 a nododd Farn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol:

"TIAA is satisfied that, for the areas reviewed during the year, General Optical Council has reasonable and effective risk management, control and governance processes in place. This opinion is based solely on the matters that came to the attention of TIAA during the course of the internal audit reviews carried out during the year and is not an opinion on all elements of the risk management, control and governance processes or the ongoing financial viability or your ability to meet financial obligations which must be obtained by General Optical Council from its various sources of assurance."

## Rheoli risg

Mae ein dull o reoli risg wedi'i nodi yn ein polisi rheoli risg. Cafodd y polisi rheoli risg a'r datganiad parodrwydd i dderbyn risg eu

cymeradwyo ddiwethaf gan y Cyngor ar 28 Mehefin 2022. Credwn fod strategaeth a pholisi rheoli risg effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni ein holl amcanion strategol ac yn rhan hanfodol o lywodraethu da.

Mae'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid yn trafod ac yn adolygu'r prif risgiau ac ansicrwydd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid hefyd yn dadansoddi'r trefniadau ar gyfer rheoli risg, gan roi sicrwydd i'r Cyngor bod risgiau'n cael eu canfod a'u rheoli'n briodol. Mae hyn yn cynnwys cynghori'r Cyngor ar y sicrwydd a roddir mewn perthynas â risg a rheolaethau mewnol. Er mwyn cefnogi'r rôl hon, dechreuodd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid baratoi adroddiadau blynyddol ar ei weithgareddau. Cafodd y diweddaraf o'r adroddiadau hyn ei roi i'r Cyngor ym mis Medi 2024.

Mae'r tîm uwch-reolwyr yn monitro'r risgiau presennol a'r rhai sy'n datblygu yn rheolaidd ac yn pennu camau lliniaru. Rydym yn cofnodi ac yn monitro risgiau gweithredol drwy ein cofrestri risg corfforaethol, cyfarwyddiaeth a phrosiect.

Rydym yn parhau i gynnal systemau a gweithdrefnau cadarn er mwyn lliniaru'r risg o fethu â chyflawni ein swyddogaethau statudol, sydd wrth wraidd diogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, roi sylw i'r risgiau canlynol:

- methu cyflawni ein dyletswyddau o ran llywodraethu gwybodaeth a diogelwch gwybodaeth;
- peidio â gwneud gwelliannau i'r amserlen addasrwydd i ymarfer o'r dechrau i'r diwedd;
- darparwyr yn peidio â bodloni gofynion addysg a hyfforddiant y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer cymwysterau cymeradwy cyn ac ar ôl cofrestru yn effeithiol; neu
- wybodaeth anghywir yn y gofrestr, sy'n arwain at niwed i enw da a niwed posibl i gleifion a / neu gofrestreion.

Mae sganio'r gorwel a bod yn effro i risgiau gweithredol a strategol sy'n datblygu yn rhan o oruchwylio busnes yn barhaus. Mae hyn yn bwysig am fod rhai o'n risgiau allweddol yn dod o'r amgylchedd allanol, sy'n golygu ei bod yn rhaid i ni weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall y risgiau a phennu'r camau y gallwn eu cymryd i'w rheoli.

Roedd galluogrwydd a gwytnwch cyflogeion yn risg gynyddol yn 2023-24 o ystyried trosiant mewn sawl rôl strategol a gweithredol allweddol. Ar ben hynny, dangosodd canlyniadau'r arolwg cyflogeion fod cynllunio llwyth gwaith a defnyddio polisïau pobl yn deg yn feysydd i'w gwella. Er mwyn rheoli'r risg hon, cwblhaodd y tîm uwch-reolwyr gam cyntaf ei brosiect Gwobrwyo a Chydnabod drwy gyflwyno polisi Gwobrwyo a Chydnabod newydd ar ddechrau 2023-24, gan feincnodi ein bandiau cyflog fel bod modd denu a chadw staff mewn ffordd fwy cystadleuol a gwneud gwelliannau i gyfanswm y pecyn gwobrwyo ar gyfer ein cyflogeion. Mae'r tîm uwch-rheolwyr wedi ymrwymo i ddatblygu fframwaith gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad fel rhan o ail gam y prosiect ar gyfer 2024-25 a fydd yn darparu system rheoli perfformiad sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd ac yn gyson â'n huchelgeisiau Pobl a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol. Comisiynodd y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd adolygiad annibynnol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a arweiniodd at gynllun gweithredu diwygiedig ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer 2024/25. Hefyd, cynhaliodd yr Uwch Aelod o'r Cyngor adolygiad o wersi a ddysgwyd o bolisïau allweddol sy'n ymwneud â chysylltiadau â chyflogeion. Gwnaed sawl argymhelliad er mwyn sicrhau bod y polisïau hyn yn parhau i sicrhau bod ymchwiliadau priodol yn cael eu cynnal i bryderon a bod yr holl gyfranogwyr yn cael eu trin yn gyson gyda chefnogaeth briodol. Caiff yr argymhellion o'r adolygiad hwn eu rhoi ar waith yn 2024/25.

Cafodd effeithiau ariannol a gweithredol gwrandawiadau a gaiff eu clywed yn rhannol eu nodi fel risg allweddol mewn adroddiadau blynyddol blaenorol, ond rydym wedi defnyddio ein prosesau rheoli risg er mwyn rhoi camau ar waith i leihau a lliniaru'r risg yn y maes hwn. O ganlyniad i hyn, roedd nifer y gwrandawiadau wedi'u trefnu a gafodd eu clywed yn rhannol yn 2023/24 wedi haneru o gymharu â 2022/23.

# Ein pobl

## Yn 2023-24, ein prif ffocws oedd atgyfnerthu'r gwaith a wnaed y flwyddyn flaenorol i ddiweddaru ein polisïau Pobl drwy drawsnewid ein dull o wobrwyo a chydnabod cyflogeion yn llwyr.

Roedd ein polisi cyflogau presennol yn hen ac nid oedd yn cyd-fynd â disgwyliadau cyflogeion. Yn dilyn canlyniadau'r arolwg cyflogeion a gynhaliwyd ar ddiwedd 2022, gwnaethom ymrwymiad i adolygu ein dull gwobrwyo a chyflwyno system i allu cydnabod perfformiad ac arddangos ein gwerthoedd.

Roedd hwn yn brosiect cymhleth a oedd yn cynnwys defnyddio ymgynghorwyr arbenigol er mwyn helpu i asesu'r dull presennol a'i gymharu â sefydliadau tebyg eraill. Gwnaethom feincnodi cyflogau ac ymgynghori â'n cyflogeion ar ddull newydd o ymdrin â chyflogau a oedd yn cydnabod cymhlethdodau'r polisi presennol a'r cyfyngiadau roedd yn eu gosod ar ddatblygiad cyflog a chadw a denu staff, yn enwedig yn achos staff â chymwysterau proffesiynol.

Ym mis Gorffennaf 2023, yn dilyn yr ymgynghoriad â chyflogeion, gwnaethom lansio ein polisi gwobrwyo a chydnabod newydd, wedi'i ategu gan fandiau cyflog diwygiedig yn ogystal â phecyn buddion gwell a fydd yn cynnwys yswiriant meddygol preifat fforddiadwy o fis Mai 2024 ymlaen, a phroses ar gyfer cydnabod unigolion a thimau y gallai pob cyflogai ei defnyddio, gan ganiatáu enwebiadau a gwobrau am gyflawniadau y tu allan i'r broses arfarnu perfformiad blynyddol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ddylunio fframwaith gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau newydd yn 2024 a fydd yn disodli ein proses rheoli perfformiad bresennol ac a fydd yn ein trawsnewid yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar ddysgu.

Mae gweithio hyblyg ac ystwyth yn dal yn allweddol i'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau, gan ein bod yn credu bod hynny'n ffordd o well o helpu i recriwtio a chadw gweithlu cytbwys, cymwysedig a daearyddol amrywiol o bob cwr o'r Deyrnas Unedig, yn ogystal ag annog cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cynnal dwy ymgyrch llesiant cyflogeion sydd wedi cefnogi iechyd meddwl cyflogeion ac wedi darparu adnoddau er mwyn iddynt weithio gartref, yn ogystal â chynnig heriau ar y cyd i gefnogi iechyd corfforol cyflogeion.

Mae gwaith ein Grŵp Llesiant ac Ymgysylltu â Staff (SWEG) yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein staff yn ymgysylltu ac yn gysylltiedig, yn enwedig o ran materion yn ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein rhwydweithiau staff, sy'n cael eu harwain gan gyflogeion, wedi hyrwyddo mis hanes menywod, mis hanes pobl ddu ac ymwybyddiaeth o anabledd/niwroamrywiaeth, gan gefnogi ein nod o fod yn weithlu cynhwysol lle y gall pobl gyfrannu'n llawn.

Mae ein dadansoddiad o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos ein bod ymhell o dan y trothwy o ran gwahaniaethau cyflog derbyniol rhwng cyflogeion benywaidd a gwrywaidd.

Iechyd a diogelwch y rhai sy'n gweithio i ni sydd o'r pwys mwyaf. Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau iechyd a diogelwch mawr yn ystod y flwyddyn.

# Ein strwythur a'n trefniadau llywodraethu a rheoli

## Ein deddfwriaeth a'n rheoliadau llywodraethu

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi'i gyfansoddi fel corff corfforaethol o dan Ddeddf Optegwyr 1989, fel y'i diweddarwyd drwy ddeddfwriaeth ddiwygio a ddaeth i rym ar 30 Mehefin 2005.

Rydym hefyd wedi ein cofrestru fel elusen gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru'r elusen 1150137).

Rydym yn atebol i Senedd y DU drwy'r Cyfrin Gyngor, i'r Comisiwn Elusennau ac i'n buddiolwyr.

## Ein Cyngor

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r Cyngor Optegol Cyffredinol, ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Maent yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo busnes y Cyngor Optegol Cyffredinol, gan sicrhau ei fod yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda, ac yn dod â budd i'r cyhoedd.

Mae holl aelodau'r Cyngor yn rhannu'r un ddyletswydd o ran diogelu'r cyhoedd ac yn goruchwylio'r ystod lawn o brosesau rheoleiddio.

Prif swyddogaethau'r Cyngor yw:

- diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;
- hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan Ddeddf Optegwyr 1989;
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny;
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad priodol ar gyfer busnesau cofrestredig.

Mae ein Cyngor yn cynnwys 12 o aelodau'r Cyngor, y mae chwech ohonynt yn gofrestreion a chwech yn aelodau lleyg (gweler tudalennau X a X). Daw'r aelodau o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae bywgraffiadau i'w gweld ar ein gwefan.

Gwasanaethodd Dr Anne Wright CBE fel Cadeirydd drwy gydol 2023-24, ar ôl cael ei phenodi ar 18 Chwefror 2021.

Caiff un aelod o'r Cyngor ei benodi'n Uwch Aelod o'r Cyngor. Mae'r Uwch Aelod o'r Cyngor yn adolygu perfformiad y Cadeirydd, yn glust i wrando ar y Cadeirydd ac yn gweithredu fel cyfryngwr i aelodau'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol a rhanddeiliaid yn ôl yr angen.

Penodwyd Clare Minchington yn Uwch Aelod o'r Cyngor o 1 Ionawr 2023 ymlaen a bu'n gweithredu yn y rôl honno drwy gydol 2023-24.

## Ein strwythur llywodraethu

Er mwyn arfer ei bwerau, mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i bwyllgorau sydd ag awdurdod a chylch gorchwyl wedi'u diffinio'n glir.

Roedd ein strwythur llywodraethu yn 2023-24 yn cynnwys pedwar pwyllgor anstatudol (Archwilio, Risg a Chyllid, Buddsoddi, Taliadau ac Enwebiadau) a phedwar pwyllgor y Cyngor (Cwmnïau, Addysg, Cofrestru a Safonau). Gwnaeth pedwar pwyllgor y Cyngor (a elwir weithiau'n bwyllgorau statudol) gyfarfod ar y cyd fel Panel Cynghori a hefyd fel pwyllgorau ar wahân.

Mae cofnod presenoldeb aelodau'r Cyngor yng nghyfarfodydd y Cyngor a'r pwyllgorau a ffioedd a threuliau aelodau'r Cyngor i'w gweld ar dudalen X a X. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi cyfarfod yn ddigon rheolaidd i gyflawni ei ddyletswyddau'n effeithiol ac mae wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn gyhoeddus.

Dim ond os bydd un o'r amodau canlynol a nodir yn y rheolau sefydlog yn berthnasol y caiff busnes y cyngor ei gynnal yn breifat:

- unrhyw fater personol sy'n ymwneud â chofrestrai neu gais i gofrestru, cyflogai, aelod o'r Cyngor, aelod o banel neu bwyllgor, cynghorydd neu ymwelydd addysg presennol neu flaenorol;
- unrhyw fater yr ystyrir ei fod yn fasnachol sensitif, yn ddarostyngedig i fraint broffesiynol gyfreithiol neu'n berthnasol i atal neu ganfod troseddau ac erlyn troseddwyr;
- unrhyw wybodaeth a roddwyd i'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn gyfrinachol;
- risg o natur ariannol neu wleidyddol (naill ai i'r Cyngor Optegol Cyffredinol neu i eraill) lle y byddai trafod y mater yn gyhoeddus yn gwaethygu'r risg;
- unrhyw fater arall y mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd yn ei ystyried yn un y mae angen ei drafod mewn cyfarfod cwbl gyfrinachol.

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill megis sefydlu, sesiynau datblygu, strategaeth, perfformiad corfforaethol a gwerthuso. Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau gymryd rhan mewn proses adolygu perfformiad.

## Cynllun dirprwyo

Mae ein cynllun dirprwyo yn nodi'r swyddogaethau hynny a gedwir gan y Cyngor, a ddirprwyir i bwyllgor, neu a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd. Gall y Cyngor ddirprwyo unrhyw rai o'i swyddogaethau ar wahân i gymeradwyo rheolau.

## Llywodraethu effeithiol

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi mabwysiadu'r Cod Llywodraethu Elusennau fel y dull ar gyfer asesu ei effeithiolrwydd. Cynhaliwyd yr hunanwerthusiad diweddaraf

## Y TÎM UWCH-REOLWYR

Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb am benderfynu ar gyflogau a thaliadau i'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd a'r uwch dîm gweithredol (a elwir hefyd yn dîm uwch-reolwyr) i'r Pwyllgor Taliadau. Cynhelir proses arfarnu flynyddol yn unol â pholisi cyflogau a thaliadau'r sefydliad, a chaiff cyflogau eu meincnodi yn erbyn rheoleiddwyr eraill.

Caiff pwerau gwneud penderfyniadau eu dirprwyo i'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd o dan Ddeddf Optegwyr 1989 a chaiff pwerau eraill eu dirprwyo gan y Cyngor. Er mwyn arfer y pwerau hyn, caiff rhai eu dirprwyo gan y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd i aelodau eraill o'r Bwrdd Gweithredol.

**Philipsia Greenway**
Y Cyfarwyddwr Newid

*sy'n gyfrifol am y canlynol:*
- Datblygu profiad cwsmeriaid
- Technoleg gwybodaeth
- Rhaglenni newid strategol

**Yeslin Gearty**
Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

*sy'n gyfrifol am y canlynol:*
- Cyfleusterau
- Cyllid
- Adnoddau dynol
- Cofrestru
- Risg ac archwilio

**Carole Auchterlonie**
Y Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio

*sy'n gyfrifol am y canlynol:*
- Brysbennu (gan gynnwys rheoli contractau'r Gwasanaeth Cwynion Defnyddwyr Optegol)
- Ymchwiliadau
- Gwrandawiadau
- Materion cyfreithiol

**Steve Brooker**
Y Cyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio

*sy'n gyfrifol am y canlynol:*
- Cyfathrebu
- Strategaeth Addysg a DPP
- Gweithrediadau Addysg a DPP
- Strategaeth, polisi a safonau

Caiff y tîm uwch-reolwyr, y Cyngor a'i bwyllgorau eu cefnogi gan y tîm llywodraethu. Mae'r Pennaeth Llywodraethu yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd.

ym mis Rhagfyr 2023, ac roedd y sefydliad o'r farn ei fod wedi cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r arferion a argymhellir yn y cod. Lle nad yw wedi gwneud hynny, gwnaeth yr asesiad nodi'r camau nesaf i'w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth neu esbonio sut roedd yn cyflawni canlyniadau allweddol y cod drwy ddull arall. Yn 2023-24 cynhaliodd TIAA, sef archwilydd mewnol y Cyngor Optegol Cyffredinol, archwiliad o gydymffurfiaeth y sefydliad â'r Cod Llywodraethu Elusennau. Arweiniodd y gweithgaredd hwn at farn archwilio o sicrwydd sylweddol.

Yn ogystal â mabwysiadu'r hunanasesiad, gwnaethom ddechrau cynnal adolygiad llywodraethu yn 2022-23. Amcan datganedig yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod strwythurau, polisïau a gweithdrefnau llywodraethu'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn ei alluogi i gyflawni ei amcanion strategol a'i swyddogaethau statudol er budd y cyhoedd.

Mae'r adolygiad hwn wedi arwain at newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau, gan gynnwys:

- proses adolygu aelodau newydd ar gyfer aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau;
- cylch gorchwyl wedi'i ddiweddaru ar gyfer y pwyllgorau sy'n rhan o'r Panel Cynghori;
- proffiliau rôl diwygiedig ar gyfer aelodau'r Cyngor;
- polisi rheoli a digwyddiadau sylweddol newydd.

Yn 2023-24, roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar gymorth i aelodau yn bennaf. Roedd hyn yn cynnwys gofynion hyfforddi a datblygu diwygiedig, gan gynnwys canllawiau cliriach ar hyfforddiant cydymffurfiaeth rheolaidd ar gyfer gwahanol garfannau o aelodau. Gwnaeth yr adolygiad o gymorth i aelodau hefyd dreialu gwell cymorth TG i aelodau'r Cyngor, gyda'r bwriad o gyflwyno hyn i holl aelodau'r Cyngor yn 2024-25.

## Ymddygiad aelodau

Mae gan aelodau'r Cyngor (yn eu rôl fel ymddiriedolwyr) a'r pwyllgorau ddyletswydd i lynu wrth saith egwyddor bywyd cyhoeddus (a elwir hefyd yn egwyddorion Nolan):

- anhunanoldeb;
- uniondeb;
- gwrthrychedd;
- atebolrwydd;
- bod yn agored;
- gonestrwydd;
- arweinyddiaeth.

Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb i wneud y canlynol:

- gweithredu'n ddiduedd ac yn wrthrychol;
- cymryd camau i osgoi rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae eu buddiannau personol yn gwrthdaro â'u dyletswydd i weithredu er budd yr elusen, oni fyddant wedi'u hawdurdodi i wneud hynny;
- cymryd camau i osgoi unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau sy'n deillio o fod yn aelodau o sefydliadau eraill neu'n gysylltiedig â sefydliadau neu unigolion eraill.

Er mwyn gwneud hyn yn gwbl dryloyw, rydym yn cyhoeddi cofrestr o fuddiannau aelodau'r Cyngor a'r pwyllgorau ar ein gwefan.

Ni chafodd unrhyw gwynion ynghylch ymddygiad aelodau eu hatgyfeirio drwy bolisi cwynion corfforaethol y Cyngor Optegol Cyffredinol yn 2023/24.

# Datganiad y Pwyllgor Taliadau 2023/24: taliadau i aelodau a chyfarwyddwyr

Mae'r Cyngor wedi dirprwyo'r cyfrifoldebau canlynol i'r Pwyllgor Taliadau:

- cynghori'r Cyngor ar dalu ffioedd i aelodau;
- rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod prosesau digonol ar waith ar gyfer pennu trefniadau talu, gwobrwyo a rheoli perfformiad ar gyfer y Bwrdd Gweithredol sy'n cyd-fynd â gwerthoedd ac egwyddorion y Cyngor Optegol Cyffredinol;
- cymeradwyo lefel y taliadau a wneir mewn perthynas â phensiynau, arian rhodd neu flwydd-daliadau i'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ac aelodau eraill o'r tîm uwch-reolwyr;
- cymeradwyo'r broses arfarnu ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ac aelodau eraill o'r tîm uwch-reolwyr;
- cymeradwyo adrannau perthnasol o'r adroddiad blynyddol mewn perthynas â thaliadau a threuliau aelodau'r Cyngor gan sicrhau eu bod yn bodloni gofynion arferion gorau;
- cymeradwyo datganiad yn yr adroddiad blynyddol ynglŷn â'i aelodaeth, ei rôl a'i gylch gwaith ar gyfer y flwyddyn flaenorol;
- cynghori'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ar y polisi treuliau staff;
- sicrhau bod yr holl bolisïau a gwaith o fewn cylch gwaith y pwyllgor yn ystyried ac yn hyrwyddo gwerthoedd y Cyngor Optegol Cyffredinol a'i ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## ADGYFODIAD

| | Aelod Cofrestredig neu Aelod Lleyg | Lleoliad Cartref | Ffioedd gan gynnwys TAW £ | Treuliau £ | Presenoldeb yng Nghyfarfodydd y Cyngor | Presenoldeb yng Nghyfarfodydd Pwyllgorau a'r Panel Cynghori1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dr Anne Wright CBE** | Aelod Lleyg *(Cadeirydd)* | Lloegr | 49,999.92 | dim | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>4 out of 4<br>PS – 4 allan o 4 | Enw – 4 allan o 4 |
| **Sinead Burns** | Aelod Lleyg | Gogledd Iwerddon | 13,962 | 968.43 | Cyhoeddus – 3 allan o 4<br>(13 Rhagfyr 2023 – ddim yn bresennol)<br>PS – 4 allan o 4 | ARC – 6 allan o 6 |
| **Josie Forte** | Cofrestrai | Lloegr | 13,962 | 345.79 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | PC – 2 allan o 2<br>Tal – 4 allan o 4 |
| **Mike Galvin** | Aelod Lleyg | Lloegr | 13,962 | 217.02 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | ARC – 6 allan o 6<br>PC – 2 allan o 2 |
| **Lisa Gerson** | Cofrestrai | Cymru | 13,962 | 173.99 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | Enw – 4 allan o 4<br>2 allan o 2 |
| **Ken Gill** | Aelod Lleyg | Lloegr | 13,962 | 599.83 | Cyhoeddus – 4 allan o 4 | ARC – 5 allan o 6<br>(5 Medi 2023 – ddim yn bresennol) |
| **Clare Minchington** | Aelod Lleyg | Lloegr | 16,461.96 | 192.48 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | Tal – 4 allan o 4 |
| **Frank Munro** | Cofrestrai | Yr Alban | 13,962 | 436.59 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 3 allan o 4<br>(12 Mawrth 2024 – ddim yn bresennol) | PC – 2 allan o 2 |
| **David Parkins*** | Cofrestrai | Lloegr | 13,380 | dim | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | ARC – 5 allan o 6<br>(30 Ionawr 2024 – ddim yn bresennol)<br>PY – 2 allan o 2 |
| **Tim Parkinson** | Aelod Lleyg | Lloegr | 13,962 | 294.09 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | PY – 2 allan o 2<br>PC – 2 allan o 2 |
| **Hema Radhakrisnan**** | Cofrestrai | Lloegr | 581.75 | dim | - | - |
| **Roshni Samra** | Cofrestrai | Lloegr | 13,962 | 55.30 | Cyhoeddus – 3 allan o 4<br>(27 Medi 2023 – ddim yn bresennol)<br>PS – 3 allan o 4<br>(26 Medi 2023) | PC – 0 allan o 2<br>(12 Mehefin 2023 a 6 Tachwedd 2023 – ddim yn bresennol) |
| **William Stockdale** | Cofrestrai | Gogledd Iwerddon | 13,962 | 532.39 | Cyhoeddus – 4 allan o 4<br>PS – 4 allan o 4 | Enw – 4 allan o 4 |

* ymddiswyddodd ar 14 Mawrth 2024

** penodwyd ar 15 Mawrth 2024

Mae'r Pwyllgor Taliadau yn cynnwys:

- Clare Minchington (Uwch Aelod o'r Cyngor a chadeirydd y pwyllgor ers 1 Ionawr 2023, aelod lleyg o'r Cyngor);
- Josie Forte (aelod o'r pwyllgor ers 1 Ionawr 2023, aelod o'r Cyngor sy'n gofrestrai);
- Nigel Sully (aelod o'r pwyllgor ers 1 Ebrill 2022, aelod annibynnol).

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, cyfarfu ar bedwar achlysur yn 2023-24: 25 Ebrill 2023; 29 Medi 2023; 10 Hydref 2023 a 5 Chwefror 2024.

Yn 2023-24, cyflawnodd ei ddyletswyddau drwy adolygu'r polisi a'r atodlen ffioedd aelodau, a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 13 Mawrth 2024. Roedd hyn yn cynnwys diwygiad i sicrhau bod aelodau'n cael tâl am ymgymryd â'r holl weithgareddau sefydlu a hyfforddi.

Hefyd, aeth y Pwyllgor ati i adolygu'r broses arfarnu ar gyfer y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd ac aelodau eraill o'r tîm uwch-reolwyr, gan gynnwys canlyniad y broses. Mae'r Pwyllgor wedi bodloni ei hun bod lefel y taliadau ym mhob achos yn gymesur a bod y polisïau a'r penderfyniadau yn cyd-fynd â gwerthoedd y Cyngor Optegol Cyffredinol.

Adroddir ar lefel y taliadau i aelodau'r Cyngor a'r tîm uwch-reolwyr yn adran tri yr adroddiad blynyddol (include page ref).

Dim ond pan fydd aelod unigol wedi'i benodi'n aelod o bwyllgor neu'n gadeirydd y caiff presenoldeb ei gyfrif. Gwnaeth rhai aelodau newid pwyllgorau yn ystod y flwyddyn ariannol, a dim ond nifer y cyfarfodydd roedd disgwyl iddynt eu mynychu y bydd yr ystadegau'n ei ddangos.

Mae taliad Uwch Aelod o'r Cyngor wedi'i bennu ar £16,462. Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cafodd y rôl hon ei chyflawni gan Clare Minchington.

Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Cyngor gymryd rhan mewn digwyddiadau eraill fel diwrnodau strategaeth, gwerthusiadau ac arfarniadau perfformiad, na fyddant yn cael tâl ychwanegol amdanynt ac na chânt eu cynnwys yn y ffigurau presenoldeb.

## Allwedd

**Pwyllgorau**

| | |
|---|---|
| **ARC** | Archwilio, Risg a Chyllide |
| **Budd** | Buddsoddi |
| **Enw** | Enwebiadau |
| **Tal** | Taliadau |
| **PC** | Panel Cynghori |

General Optical Council

# Manylion cyfeirio a gweinyddol

Y Cyngor Optegol Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr statudol ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU ac mae wedi'i gyfansoddi fel corff corfforaethol o dan Ddeddf Optegwyr 1989, fel y'i diweddarwyd gan ddeddfwriaeth ddiwygio adran 60 a ddaeth i rym ar 30 Mehefin 2005. Ar 12 Rhagfyr 2012, cofrestrwyd y Cyngor Optegol Cyffredinol fel elusen gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru'r elusen 1150137).

Mae swyddfa gofrestredig y Cyngor Optegol Cyffredinol yn 10 Old Bailey, Llundain, EC4M 7NG

| | |
|---|---|
| **Bancwyr** | **Lloyds Banking Group (yn cynnwys Bank of Scotland) 4ydd** *Llawr, 25 Gresham Street, Llundain, EC2V 7HN* |
| **Archwilwyr mewnol** | **TIAA Ltd (o 31 Mawrth 2020)** *Artillery House, Fort Fareham, Newgate Lane, Fareham, PO14 1AH* |
| **Archwilwyr allanol** | **haysmacintyre LLP** *10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1AG* |
| **Cynghorwyr buddsoddi** | Royal Bank of Canada Brewin Dolphin Limited *12 Smithfield Street, London, ECIA 9BD* |

## Y CYNGOR

| | |
|---|---|
| **Anne Wright** *Cadeirydd* | penodwyd ar 19 Chwefror 2021 tan 18 Chwefror 2025 |
| **Sinead Burns** | ailbenodwyd ar 1 Hydref 2020 tan 30 Medi 2024 |
| **Josie Forte** | ailbenodwyd ar 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2025 |
| **Mike Galvin** | ailbenodwyd ar 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2025 |
| **Lisa Gerson** | penodwyd ar 1 Mai 2021 tan 30 Ebrill 2025 |
| **Ken Gill** | penodwyd ar 1 Ionawr 2023 tan 31 Rhagfyr 2027 |
| **Clare Minchington** | ailbenodwyd ar 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2025 |
| **Frank Munro** | penodwyd ar 5 Gorffennaf 2021 tan 04 Gorffennaf 2025 |
| **David Parkins** | ailbenodwyd ar 15 Mawrth 2020 tan 14 Mawrth 2024 |
| **Tim Parkinson** | penodwyd ar 16 Ebrill 2020 tan 15 Ebrill 2024, cadarnhawyd ailbenodiad ar gyfer 16 Ebrill 2024 – 15 Ebrill 2028 |
| **Hema Radhakrishnan** | penodwyd ar 15 Mawrth 2024 tan 14 Mawrth 2028 |
| **Roshni Samra** | ailbenodwyd ar 1 Ebrill 2021 tan 31 Mawrth 2025 |
| **William Stockdale** | penodwyd ar 1 Ionawr 2023 tan 31 Rhagfyr 2027 |

## Y TÎM UWCH-REOLWYR

| | |
|---|---|
| **Leonie Milliner** | Prif Weithredwr a Chofrestrydd |
| **Carole Auchterlonie** | Cyfarwyddwr Dros Dro Gweithrediadau Rheoleiddio (13 Hydref 2023 – 29 Chwefror 2024) Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio (o 1 Mawrth 2024 ymlaen) |
| **Steve Brooker** | Cyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio |
| **Yeslin Gearty** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Philipsia Greenway** | Cyfarwyddwr Newid |
| **Dionne Spence** | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio (tan 12 Hydref 2023) |



ADRAN 2

# EIN HADRODDIAD ADDASRWYDD I YMARFER

# Beth yw addasrwydd i ymarfer?

## Bydd cofrestrai yn addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes os bydd ganddo'r sgiliau, y wybodaeth, yr iechyd a'r cymeriad perthnasol i wneud ei waith a/neu ymarfer yn ddiogel.

Mae'r Safonau'n diffinio'r safonau ymddygiad a pherfformiad y disgwylir i gofrestreion eu cyrraedd. Un o'n swyddogaethau craidd yw ymchwilio a gweithredu pan fydd amhariad posibl ar addasrwydd cofrestreion i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

### Sut y byddwn yn delio â phryderon

Gall unrhyw un godi pryder â ni os bydd yn credu nad yw cofrestrai yn addas i ymarfer (neu hyfforddi neu redeg busnes sydd wedi'i gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol) a chaiff pryderon eu rhannu â ni gan aelodau o'r cyhoedd, cleifion, gofalwyr, cyflogwyr, yr heddlu a chofrestreion eraill. Os cawn wybodaeth a allai godi amheuaeth ynghylch addasrwydd cofrestrai, efallai y bydd angen i ni ymchwilio.

Trosolwg o'n perfformiad addasrwydd i ymarfer:

- cyrraedd holl Safonau Rheoleiddio Da y PSA ar gyfer addasrwydd i ymarfer am yr ail flwyddyn yn olynol;
- cyflawni sicrwydd ansawdd cadarnhaol drwy'r archwiliad annibynnol blynyddol o benderfyniadau;
- datblygu a phrofi system rheoli achosion newydd i'w rhoi ar waith yn 2024/25 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn storio ac yn rheoli gwybodaeth am waith achos ymhellach;
- comisiynu adolygiad annibynnol i ganfod cyfleoedd ar gyfer gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ein gweithrediadau gwrandawiadau.

### PENDERFYNIADAU EIN PWYLLGOR ADDASRWYDD I YMARFER

| Canlyniad | Nifer y canlyniadau |
|---|---|
| Dim camau pellach/dim achos i'w ateb | 7 |
| Wedi canfod camymddwyn ond dim amhariad | 3 |
| Amhariad heb gosb | 1 |
| Rhybudd | 2 |
| Dirwyon | 0 |
| Cofrestriad amodol | 3 |
| Atal dros dro | 16 |
| Dileu | 13 |
| Cynnig o ddim tystiolaeth wedi'i dderbyn | 2 |
| Aros | 1 |
| Cyfanswm | 48 |

## Brysbennu

Daeth ychydig yn llai o bryderon i law yn 2023/24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (405 yn 2023/24 o gymharu â 448 yn 2022/23 – lleihad o 9.6%). Gwnaethom agor 132 o ymchwiliadau newydd, sy'n cynrychioli cyfradd drosi o 32 y cant (o gymharu â 24% y flwyddyn flaenorol).

Roedd 40 y cant o'r pryderon a ddaeth i law yn ymwneud â materion clinigol; roedd 43 y cant yn ymwneud ag ymddygiad cofrestreion, ac roedd y gweddill (17%) yn gymysgedd o faterion yn ymwneud ag euogfarnau, iechyd a materion cyfunol.

## Ymchwiliadau

Dros y flwyddyn gwelsom gynnydd o 26 y cant yn ein llwyth achos ymchwiliadau, o 93 ar ddiwedd 2022/23 i 126 ar ddiwedd 2023/24.

O ran yr amser a gymerwyd i ymchwilio i bryderon newydd, gwelsom:

- gynnydd o 6 y cant yng nghanolrif yr ymchwiliadau agored (o 29 wythnos ar ddiwedd 2022/23 i 31 wythnos ar ddiwedd 2023/24);
- lleihad o 35 y cant nghanolrif y penderfyniadau archwilwyr achos (o 63 wythnos ar ddiwedd 2022/23 i 41 wythnos ar ddiwedd 2023/24);
- 52 y cant o ymchwiliadau newydd yn arwain at sylwadau o fewn 30 wythnos; 2% of new investigations to representations within 30 weeks
- 69 y cant o ymchwiliadau newydd yn arwain at sylwadau o fewn 40 wythnos;
- cynnydd o 9 y cant mewn achosion a atgyfeiriwyd at wrandawiadau (o 43 o achosion yn 2022/23 i 47 o achosion yn 2023/24).

Erbyn diwedd y flwyddyn, bu lleihad o 31 y cant mewn achosion agored a oedd dros flwyddyn oed (78 o achosion ar ddiwedd 2022/23 o gymharu â 54 o achosion ar ddiwedd 2023/24).

O'r 54 o bryderon sydd wedi bod ar agor ers mwy na blwyddyn, mae 63 y cant wedi mynd heibio'r cam archwilwyr achos, felly maent yn cael eu paratoi ar gyfer datgelu neu wrandawiadau, mae gwrandawiad wedi'i drefnu ar eu cyfer neu maent yn aros am ddyddiad gwrandawiad.

Roedd cyfradd atgyfeirio archwilwyr achos at bwyllgor addasrwydd i ymarfer yn is nag yn y flwyddyn flaenorol; y gyfradd atgyfeirio dreigl ar ddiwedd 2023/24 oedd 42 y cant o gymharu â 61 y cant yn 2022/23.

Gan gynnwys penderfyniadau archwilwyr achos, y gyfradd derfynu ganolrifol ar ddiwedd y flwyddyn oedd 72 wythnos (75 wythnos yn 2022/23).

## Gwrandawiadau

- Cafodd 52 y cant o'r holl achosion eu cwblhau o fewn 78 wythnos o'r dechrau i'r diwedd
- Canolrif o'r dechrau i'r diwedd o 72 wythnos ar gyfer pob penderfyniad terfynol
- Trefnwyd 47 yn fwy o ddiwrnodau gwrandawiadau na'r flwyddyn flaenorol (438 o ddiwrnodau gwrandawiadau ar gyfer 2023/24)
- Trefnwyd gwrandawiadau o fewn 30 wythnos mewn 71 y cant o achosion.

Parhaodd ein tîm gwrandawiadau i gefnogi digwyddiadau o bell ac wyneb yn wyneb. Cafodd 85 y cant o'n prif ddigwyddiadau, a 98 y cant o'n digwyddiadau eraill, eu clywed o bell.

Yn 2023/24, gwnaeth y pwyllgor addasrwydd i ymarfer ystyried 57 o brif wrandawiadau, gan ddatrys 48 o achosion, o gymharu â 40 o achosion yn 2022/23. Cafodd saith achos wedi'i drefnu eu clywed yn rhannol yn ystod 2023/24, o gymharu â 14 yn 2022/23.





ADRAN 3

# CYFRIFON

# Ein Hadroddiad Cyllid

## Adolygiad Ariannol o'r Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

Mae adran 32 (2) o Ddeddf Optegwyr 1989 yn darparu y dylai cyfrifon y Cyngor ar gyfer pob blwyddyn ariannol gael eu harchwilio gan archwilwyr a benodir ganddo ac y dylent, cyn gynted ag y bo modd ar ôl iddynt gael eu harchwilio, gael eu cyflwyno a'u gosod gerbron Senedd y DU. Mae'r Cyngor yn paratoi adroddiad ariannol blynyddol sy'n nodi ei sefyllfa ariannol, ac yn ei gyflwyno i'r llywodraeth graffu arno.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid (ARC) chwe gwaith eleni, gan ganolbwyntio ar archwilio a risg mewn tri chyfarfod ac ar gyllid yn y cyfarfodydd eraill. Gwnaeth y pwyllgor adolygu systemau rheolaethau ariannol mewnol y Cyngor a chafodd adroddiad blynyddol gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. Gwnaeth hefyd adolygu perfformiad ariannol, rheolaethau gweithredol a chydymffurfio, a threfniadau rheoli risg.

Yn 2023/24, y perfformiad ariannol ar gyfer y flwyddyn (wedi'i fesur yn ôl incwm net) oedd diffyg o £0.1m (diffyg o £0.8m yn 2022/23). Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd gan y Cyngor gyllideb a oedd yn adennill costau ar gyfer gweithrediadau busnes fel arfer ac a oedd yn cynnwys cynlluniau pellach ar gyfer buddsoddi £1.8m o gronfeydd wrth gefn dynodedig ar brosiectau strategol ac achosion cyfreithiol cymhleth, gan anelu at ddiffyg net o £1.5m. Roedd y canlyniadau gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn gryn dipyn yn well (£1.4m) na disgwyliadau'r gyllideb. Roedd sawl ffactor yn gyfrifol am y gwarged, gan gynnwys amodau gwell yn y farchnad a arweiniodd at welliant mewn enillion buddsoddi heb eu gwireddu, cyfraddau llog uwch a gyflawnwyd gan ein hadneuon sefydlog, arbedion sylweddol o ganlyniad i gwblhau ein buddsoddiad yn ein prosiectau strategol TG, oedi mewn rhai prosiectau a pheidio â chael cynifer â'r disgwyl o achosion addasrwydd i ymarfer cymhleth, gan arwain at lai na'r bwriad o ddefnydd o'n cronfa achosion cyfreithiol cymhleth.

Yr incwm ar gyfer y flwyddyn oedd £11.2m (£10.3m yn 2022/23); roedd £10.8m (£10.0m yn 2022/23) yn gysylltiedig â ffioedd adnewyddu blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn, aethom i wariant o £12m (£10.5m yn 2022/23). Roedd y cynnydd mewn gwariant yn deillio o gyflawni ein cynllun busnes diwygiedig a'n cyllideb ar gyfer y flwyddyn.

Rydym yn parhau i gynnal sefyllfa gadarn o ran adnoddau arian parod a buddsoddiadau, ac felly mae'n rhesymol i'r ymddiriedolwyr ddisgwyl bod digon o adnoddau ar gael i barhau i fodoli fel busnes gweithredol yn y dyfodol rhagweladwy.

### Polisi cronfeydd wrth gefn

Y Cyngor sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch y lefel briodol o gronfeydd wrth gefn i'r sefydliad eu dal. Mae hyn er mwyn sicrhau bod lefel ddarbodus o gronfeydd wrth gefn i ddarparu ar gyfer amrywiadau annisgwyl mewn patrymau gwariant neu incwm neu i ariannu gwariant eithriadol yn y dyfodol. Bydd y Cyngor yn adolygu'r cronfeydd wrth gefn hyn o leiaf unwaith y flwyddyn, ar adeg pennu'r gyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid a'r Pwyllgor Buddsoddi.

Cafodd y polisi cronfeydd wrth gefn ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod 2023/24. Dim ond newidiadau bach a wnaed gan ein bod yn bwriadu cynnal adolygiad llawnach y flwyddyn nesaf, er mwyn cefnogi'r gwaith o wireddu ein cynllun corfforaethol pum mlynedd nesaf. Y prif newidiadau a wnaed i'r polisi oedd: cael gwared ar y gronfa COVID-19; ehangu'r costau sy'n gysylltiedig â'r gronfa costau cyfreithiol; cynyddu terfyn uchaf y gronfa strategol; a gostwng terfyn isaf ystod cyfanswm y cronfeydd wrth gefn.

Mae ein holl gronfeydd wrth gefn yn anghyfyngedig ac, ar 31 Mawrth 2024, cyfanswm y cronfeydd wrth gefn oedd £8.7m (£8.9m yn 2022/23). Yr ystod darged newydd ar gyfer cronfeydd heb eu dynodi yn unol â'r polisi cronfeydd wrth gefn yw rhwng £2.3m a £4.3m. Ar 31 Mawrth 2024, roedd cyfanswm y cronfeydd heb eu dynodi ar ôl didynnu'r asedau sefydlog diriaethol o fewn yr ystod hon, ar lefel o £3.8m (£3.3m yn 2022/23).

Wrth bennu'r polisi cronfeydd wrth gefn, mae'r Cyngor wedi nodi tair cronfa wrth gefn ddynodedig: y gronfa achosion addasrwydd i ymarfer cymhleth, y gronfa strategol, a'r gronfa seilwaith/dadfeiliad. Pwrpas y gronfa achosion addasrwydd i ymarfer cymhleth (£0.7m) yw lliniaru'r risg y bydd costau cyfreithiol achosion cymhleth uchel eu gwerth yn codi uwchlaw'r lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae'r gronfa strategol (£2.6m) yn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau a mentrau penodol a amlinellir yng nghynlluniau busnes y Cyngor Optegol Cyffredinol. Bwriad y gronfa seilwaith/dadfeiliad (£1.3m) yw cronni arian ar gyfer datblygu seilwaith pan fydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn gadael ei safle presennol ar ddiwedd cyfnod y les.

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £0.9m (£1.2m yn 2022/23) o'r gronfa strategol ar gyfer prosiectau strategol. Y prosiectau strategol hynny yw'r adolygiad strategol addysg, rhoi ein strategaeth TG ar waith, a chefnogi ein swyddfa Rheoli Newid dros dro, sy'n goruchwylio prosiectau trawsnewid digidol (MyGOC), system rheoli achosion, system glyweledol a recordio, cynllun pobl (prosiect gwobrwyo a chydnabod), a'r prosiect swyddfa ar gyfer y dyfodol. Mae sawl un o'r prosiectau hyn yn rhaglenni gwaith amlflwyddyn. Bwriedir i'r holl brosiectau strategol arwain at fanteision hirdymor i'r sefydliad.

Cafodd gwerth £0.1m o dreuliau eu cofnodi fel costau cyfreithiol cymhleth yn ystod y flwyddyn ac fe'u hariannwyd drwy'r gronfa costau cyfreithiol.

Caiff y polisi cronfeydd wrth gefn ei adolygu bob tair blynedd, er mwyn ein galluogi i reoli risgiau ariannol a chreu capasiti ar gyfer prosiectau strategol hirdymor. Rydym yn cadw cronfeydd wrth gefn ar lefel briodol yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Elusennau.

## Polisi buddsoddi

Mae'r polisi cyfalaf gweithio yn cydnabod ei bod yn rhaid sicrhau bod yr holl adneuon yn ddiogel ac yn hylifol ac nad ydynt yn agored i risg arian cyfred. Mae'r datganiad polisi buddsoddi yn cydnabod anghenion ychwanegol y Cyngor Optegol Cyffredinol, wrth i ni geisio sicrhau bod cronfeydd yn darparu enillion rhesymol o fewn proffiliau risg derbyniol. Cafodd y Polisi Buddsoddi diwygiedig ei gymeradwyo gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023, ar ôl iddo gael ei adolygu a'i argymell gan y Pwyllgor Buddsoddi ym mis Tachwedd 2022.

Mae gan yr ymddiriedolwyr bwerau buddsoddi eang a amlinellir yn Neddf Ymddiriedolwyr 2000, sy'n cynnwys y pŵer i ddirprwyo rhai cyfrifoldebau i reolwr buddsoddi. Rydym wedi penodi Brewin Dolphin yn ymgynghorwyr buddsoddi i sicrhau y gallwn wneud y defnydd gorau o'r elw er mwyn cyflawni ein nodau strategol a chael sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r swyddog buddsoddi (y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol) yn parhau i reoli'r gronfa arian parod byrdymor a chysylltu â'r rheolwyr buddsoddi ynglŷn â'r strategaeth fuddsoddi.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi adroddiad yr ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (safonau cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y safon adrodd ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae'r gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ac o incwm a gwariant yr elusen ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas ac yna eu rhoi ar waith yn gyson;

General Optical Council

- Glynu wrth ddulliau ac egwyddorion y Ddeddf Elusennau;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddarbodus;
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wyriadau o bwys yn y datganiadau ariannol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau ar y sail honno.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n dangos ac yn esbonio trafodiadau'r elusen, yn datgelu sefyllfa ariannol yr elusen yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Nhw sydd hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am gynhaliaeth ac uniondeb yr elusen a'r wybodaeth ariannol a gyhoeddir ar wefan yr elusen. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â pharatoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Mae pob un o'r ymddiriedolwyr a oedd yn eu rôl ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn wedi cadarnhau nad oes gwybodaeth y maent yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r archwiliad ond nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Maent hefyd wedi cadarnhau eu bod wedi cymryd camau priodol i ganfod gwybodaeth berthnasol o'r fath ac i sicrhau bod yr archwilwyr yn ymwybodol o wybodaeth o'r fath.

Cafodd yr adroddiad hwn ei gymeradwyo gan yr ymddiriedolwyr ar 24 Medi 2024, a'i lofnodi ar eu rhan gan.



**Dr Anne Wright CBE**
*Cadeirydd y Cyngor Optegol Cyffredinol*

# Adroddiad yr Archwilwyr Annibynnol

## i Ymddiriedolwyr y Cyngor Optegol Cyffredinol

### Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod a nodiadau i'r datganiadau ariannol, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, sef y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r elusen ar 31 Mawrth 2024 ac o symudiad net yr elusen mewn cronfeydd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

### Sail y farn

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 ac rydym yn adrodd yn unol â'r Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol a wnaed neu sy'n cael effaith o dan y Ddeddf. Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau o dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran yn ein hadroddiad ar gyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar yr elusen yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

### Casgliadau mewn perthynas â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i wneud, nid ydym wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o 12 mis o leiaf, o'r dyddiad pan roddir awdurdod i'r datganiadau ariannol gael eu cyhoeddi.

Caiff ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol yn yr adroddiad hwn.

### Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall, ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â'r wybodaeth honno, ac eithrio i'r graddau y nodir yn glir fel arall yn ein hadroddiad.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng y wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gawsom fel rhan o'r archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall fod camddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall. Os gwelwn anghysondebau o bwys neu gamddatganiadau o bwys ymddangosiadol o'r fath, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu gamddatganiad o bwys o'r wybodaeth arall. Os byddwn, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod camddatganiad o bwys yn y wybodaeth arall hon, bydd yn ofynnol i ni adrodd ar y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt drwy eithriad

- Nid oes gennym ddim i adrodd arno mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae'n ofynnol i ni adrodd arnynt i chi yn ôl Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 os byddwn o'r farn bod y canlynol yn wir:
- Nid yw'r elusen wedi cadw cofnodion cyfrifyddu boddhaol; neu
- Ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- Nid yw datganiadau ariannol yr elusen yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu na'r datganiadau; neu
- Nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fwy manwl yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a nodir ar dudalen xx, yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y cyfryw reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni bai fod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r elusen neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

## Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes yn y datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd gamddatganiad o bwys, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad o bwys pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi drwy dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn rhai o bwys pe bai'n rhesymol disgwyl iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, er mwyn dod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r elusen a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo, gwelsom fod y prif risgiau o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau yn ymwneud â Deddf Optegwyr 1989 a Deddf Elusennau 2011, a gwnaethom ystyried i ba

raddau y gallai peidio â chydymffurfio gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol. Gwnaethom hefyd ystyried y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, megis Deddf Elusennau 2011 a threth y gyflogres.

Gwnaethom werthuso cymelliadau a chyfleoedd y rheolwyr i gamddefnyddio'r datganiadau ariannol yn dwyllodrus (gan gynnwys y risg o ddiystyru rheolaethau) a phenderfynu bod y prif risgiau'n ymwneud â chofnodi eitemau amhriodol mewn dyddlyfrau mewn perthynas â refeniw a thuedd rheolwyr mewn amcangyfrifon cyfrifyddu. Ymhlith y gweithdrefnau archwilio a ddilynwyd gan y tîm ymgysylltu roedd:

- Holi rheolwyr ynghylch gohebu â rheoleiddwyr ac awdurdodau treth;
- Trafodaethau gyda rheolwyr gan gynnwys ystyried achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a thwyll;
- Gwerthuso rheolaethau'r rheolwyr a luniwyd i atal a chanfod afreoleidd-dra;
- Bwrw golwg dros gofnodion cyfarfodydd y pwyllgor Archwilio, Risg a Chyllid a'r Cyngor
- Canfod a phrofi dyddlyfrau, yn enwedig cofnodion sydd â chyfuniadau anarferol o gyfrifon, cofnodion gan ddefnyddwyr anarferol neu gofnodion â disgrifiadau anarferol;
- Herio rhagdybiaethau a dyfarniadau a wnaed gan y rheolwyr yn eu hamcangyfrifon cyfrifyddu critigol

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, ceir risg na fyddwn yn canfod pob afreoleidd-dra, gan gynnwys rhai sy'n arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol neu ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau.

Po bellaf fydd cydymffurfio â chyfraith neu reoliad oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodiadau a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, mwyaf fydd y risg, gan y byddwn yn llai tebygol o ddod i wybod am achosion o beidio â chydymffurfio. Bydd y risg hefyd yn fwy o ran afreoleidd-dra yn sgil twyll yn hytrach na gwall, gan fod twyll yn cynnwys celu, ffugio, cydgynllwynio, hepgor neu gamliwio bwriadol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol yn: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilydd.

## Defnyddio ein hadroddiad

Gwneir yr adroddiad hwn ar gyfer ymddiriedolwyr yr elusen yn unig, fel corff, yn unol ag adran 144 Deddf Elusennau 2011 a rheoliadau a wneir o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Mae ein gwaith archwilio wedi cael ei wneud er mwyn i ni allu datgan wrth ymddiriedolwyr yr elusen y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at yr un diben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ar wahân i ymddiriedolwyr yr elusen fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.

**Haysmacintyre LLP**
**Statutory Auditors**
**10 Queen Street Place**
**London**
**EC4R 1AG**

# Datganiad o Weithgareddau Ariannol

## ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | Cyllid Anghyfyngedig £'000 | Cyfanswm 2023/2024 £'000 | Cyfanswm 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Incwm o: | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | 10,816 | 10,816 | 10,028 |
| Buddsoddiadau | 5 | 411 | 411 | 312 |
| **Cyfanswm** | | **11,227** | **11,227** | **10,340** |
| Gwariant ar: | | | | |
| Codi Arian | 12 | 44 | 44 | 44 |
| Gweithgareddau elusennol | 6 | 11,927 | 11,927 | 10,494 |
| **Cyfanswm yr adnoddau a wariwyd** | | **11,971** | **11,971** | **10,538** |
| Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau | 12 | 623 | 623 | (559) |
| **(Gwariant) / incwm net** | | **(121)** | **(121)** | **(757)** |
| Cysoni cronfeydd: | | | | |
| Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen | | 8,856 | 8,856 | 9,613 |
| **Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen** | | **8,735** | **8,735** | **8,856** |

Nid oes enillion na cholledion cydnabyddedig heblaw'r rhai a gydnabyddir uchod. Mae'r holl weithgareddau'n parhau.
Roedd yr holl drafodiadau yn 2023-24 a 2022-23 yn anghyfyngedig.
Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 52 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Mantolen

## ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog:** | | | |
| **Asedau sefydlog diriaethol** | 11 | 344 | 742 |
| Buddsoddiadau | 12 | 9,266 | 8,694 |
| **Cyfanswm yr asedau sefydlog** | | **9,610** | **9,436** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Dyledwyr | 13 | 675 | 433 |
| Adneuon byrdymor | | 7,450 | 8,950 |
| Arian parod yn y banc ac mewn llaw | | 3,131 | 1,253 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **11,256** | **10,637** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | 14 | (12,131) | (11,216) |
| **Rhwymedigaethau cyfredol net** | | **(875)** | **(579)** |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **8,735** | **8,857** |
| **Asedau net** | | **8,735** | **8,857** |
| **Cynrychiolir gan:** | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig: | | | |
| Cronfeydd dynodedig | 16 | 4,546 | 4,850 |
| Cronfeydd cyffredinol | 16 | 4,189 | 4,007 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | | **8,735** | **8,857** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 52 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.
Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo a'u hawdurdodi gan y Cyngor ar 24 Medi 2024 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan:

**Dr Anne Wright CBE**
*Cadeirydd y Cyngor Optegol Cyffredinol*



# Datganiad Llif Arian

## Parod ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

| | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgareddau gweithredol:** | | |
| **Cysoni (gwariant) / incwm net â'r llif arian parod net o weithgareddau gweithredol:** | | |
| Incwm / gwariant net ar gyfer y cyfnod adrodd (yn unol â'r datganiad o weithgareddau ariannol) | (121) | (757) |
| Dibrisiant | 497 | 156 |
| Colledion wrth waredu asedau sefydlog | - | - |
| (Enillion) / colledion ar incwm buddsoddi | (623) | 559 |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | (411) | (312) |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn dyledwyr | (242) | 91 |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr | 915 | 682 |
| **Arian parod net a ddarparwyd yn sgil (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau gweithredu** | **15** | **419** |
| | | |
| **Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi:** | | |
| Difidendau, llog a rhenti o fuddsoddiadau | 411 | 312 |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | (99) | (84) |
| Enillion o werthu buddsoddiadau | 2,424 | 2,811 |
| Symudiad mewn cyfrif cadw byrdymor (mwy na thri mis) | 1,500 | (1,250) |
| Symudiad mewn arian parod a ddelir mewn buddsoddiad | 32 | (73) |
| Prynu Buddsoddiadau | (2,405) | (2,730) |
| **Arian parod net a ddarparwyd yn sgil (a ddefnyddiwyd mewn) gweithgareddau buddsoddi** | **1,863** | **(1,014)** |
| | | |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod adrodd** | **1,878** | **(595)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod adrodd | 1,253 | 1,848 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | **3,131** | **1,253** |
| | | |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | |
| **Arian parod yn y banc ac mewn llaw** | **3,131** | **1,253** |

# Nodiadau ar y Cyfrifon Ariannol

## ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2024

**1. Gwybodaeth Gyffredinol**

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol wedi'i gyfansoddi fel corff corfforaethol o dan Ddeddf Optegwyr 1989, fel y'i diweddarwyd drwy ddeddfwriaeth ddiwygio a ddaeth i rym ar 30 Mehefin 2005. Rydym hefyd wedi ein cofrestru fel elusen gan y Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru'r elusen 1150137). Mae ein swyddfa gofrestredig yn 10 Old Bailey, Llundain, EC4M 7NG.

**2. Polisïau Cyfrifyddu**

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, y dyfarniadau a'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif wrth baratoi'r datganiadau ariannol fel a ganlyn:

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer cyfrifyddu ac adrodd gan elusennau, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019), FRS 102 SORP Elusennau, a Deddf Elusennau 2011.

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno'r cyfrifon i'r Cyfrin Gyngor sy'n eu gosod gerbron Senedd y DU.

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102.

**3. Arfer Barn Wrth Ddilyn Polisïau Cyfrifyddu A Ffynonellau Allweddol O Ansicrwydd Amcangyfrif**

Caiff amcangyfrifon a dyfarniadau eu gwerthuso'n barhaus ac maent yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, gan gynnwys disgwyliadau o ddigwyddiadau yn y dyfodol y credir eu bod yn rhesymol o dan yr amgylchiadau. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth orau'r rheolwyr am y swm, y digwyddiadau neu'r gweithredoedd, mae'n bosibl y bydd y canlyniadau gwirioneddol yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw. Mae'r ymddiriedolwyr o'r farn bod yr eitem ganlynol yn faes sy'n destun amcangyfrif a barn.

### Dibrisiant:

Mae oes economaidd ddefnyddiol asedau sefydlog diriaethol yn seiliedig ar farn a phrofiad y rheolwyr. Pan fydd y rheolwyr yn gweld bod oes economaidd ddefnyddiol asedau yn wahanol iawn i'r amcangyfrifon a ddefnyddiwyd i gyfrifo dibrisiant, caiff y tâl hwnnw ei addasu'n ôl-weithredol. Gan nad yw asedau sefydlog diriaethol yn sylweddol, ni fydd amrywiadau rhwng oes economaidd ddefnyddiol wirioneddol ac amcangyfrifedig yn cael effaith sylweddol ar y canlyniadau gweithredu. Yn hanesyddol, nid oes newidiadau wedi bod yn ofynnol.

**i. Busnes Gweithredol**

Mae'r ymddiriedolwyr (aelodau'r Cyngor) o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel busnes gweithredol. O ran y cyfnod adrodd nesaf, sef 2024/25, mae'r maes mwyaf perthnasol o ansicrwydd yn ymwneud ag ansefydlogrwydd gwerthoedd marchnadol buddsoddiadau lle y caiff y rhan fwyaf o'n cronfeydd wrth gefn eu dal. Gall y rhagolygon ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig ar gyfer marchnadoedd ariannol greu risg i'n cynlluniau perfformiad uchelgeisiol, er bod ein cyllideb ar gyfer 2024/25 a'r incwm a ragwelir o ffioedd cofrestreion yn dangos y bydd gennym ddigon o arian i gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio a'n cynllun busnes. Ar ôl bwrw golwg dros ein sefyllfa ariannol, lefelau ein cronfeydd wrth gefn a'n cynlluniau

ar gyfer y dyfodol, mae aelodau'r Cyngor yn hyderus bod yr elusen yn fusnes gweithredol o hyd. Paratowyd y datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

**ii. Incwm**

Caiff yr holl incwm ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawl i incwm, pan fydd yn debygol y daw incwm i law, a phan ellir mesur yr incwm derbyniadwy mewn modd dibynadwy.

Gan mwyaf, mae ein hincwm yn cynnwys ffioedd gan optometryddion, optegwyr cyflenwi a chyrff corfforaethol cofrestredig. Mae'r ffioedd a godir bob blwyddyn am gael aros ar y gofrestr yn daladwy ymlaen llaw rhwng mis Ionawr a mis Mawrth bob blwyddyn ac fe'u cydnabyddir yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

Rydym hefyd yn cael ffioedd cofrestru gan fyfyrwyr, sy'n daladwy am y flwyddyn neu'r cyfnod a ddaw i ben ar 31 Awst yn unol â'r flwyddyn academaidd ac a gaiff eu cynnwys yn y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Caiff incwm buddsoddi ei gydnabod pan fydd llog neu ddifidendau'n ddyledus, a chaiff ei ddatgan cyn didynnu treth adenilladwy.

Caiff gwerthiannau ac incwm arall eu cydnabod pan ddarperir y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig.

**iii. Gwariant**

Caiff adnoddau eu gwario'n uniongyrchol wrth gyflawni a chefnogi nodau elusennol y sefydliad. Mae'r gwariant ar weithgareddau elusennol yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig ag addasrwydd i ymarfer, cydymffurfiaeth gyfreithiol, cofrestru ac addysg a safonau. Caiff gwariant ei gydnabod ar sail gronnus wrth i rwymedigaeth godi.

Dyrennir gwariant i weithgaredd penodol lle mae'r gost yn uniongyrchol berthnasol i'r gweithgaredd hwnnw. Fodd bynnag, caiff cost gyffredinol cyfarwyddo a gweinyddu pob gweithgaredd ei dosrannu ar sail amser staff y gellir ei briodoli i bob gweithgaredd.

Mae costau cymorth yn cynnwys costau llywodraethu a chostau cymorth eraill. Mae costau llywodraethu yn cynnwys y rhai yr eir iddynt wrth lywodraethu'r sefydliad a'i asedau ac maent yn bennaf cysylltiedig â gofynion cyfansoddiadol a statudol. Mae costau'n cynnwys costau uniongyrchol archwilio allanol, ffioedd cyfreithiol a chyngor proffesiynol arall.

Mae costau cymorth wedi cael eu dosrannu rhwng yr holl weithgareddau yn seiliedig ar niferoedd y staff. Caiff dyraniad costau cymorth a llywodraethu ei ddadansoddi yn nhabl chwech isod.

Mae adnoddau a wariwyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar sail gronnus. Caiff yr holl rwymedigaethau eu cydnabod cyn gynted ag y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn ymrwymo'r elusen i wariant.

**iv. Asedau Sefydlog**

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan ar sail cost, ar ôl didynnu dibrisiant.

Caiff gwariant ei gyfalafu pan fydd cost yr ased, neu'r grŵp o asedau, yn fwy na £1,000.

Caiff costau cynllunio'r wefan eu cynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol pan eir iddynt. Dim ond pan fyddant yn arwain at greu ased parhaus sy'n darparu buddion diriaethol yn y dyfodol y mae eu gwerth o leiaf yr un faint â'r swm a gyfalafwyd y caiff costau eraill sy'n gysylltiedig â'r wefan eu cyfalafu fel ased sefydlog.

Cynhelir adolygiad o amhariad ar werth ased net y wefan ar ddyddiad pob mantolen. Caiff gwariant ar gynnal neu weithredu'r wefan ddatblygu ei gynnwys yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

**v. Dibrisiant**

Caiff asedau eu dibrisio mewn rhandaliadau cyfartal dros y cyfnodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar TG | 3 blynedd |
| Gwefan/mewnrwyd/ adnewyddu ar-lein | 3 blynedd |
| Dodrefn a chyfarpar swyddfa | 10 mlynedd |

Gwelliannau prydles (dodrefnu swyddfa)

Dros gyfnod y brydles (10 mlynedd)

(blynyddoedd blaenorol – 15 mlynedd)

Darperir dibrisiant er mwyn dileu cost, llai gwerth gweddilliol, yr asedau'n gyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig.

**Vi. Buddsoddiadau**

Math o offerynnau ariannol sylfaenol yw buddsoddiadau, ac fe'u dangosir i ddechrau yn y datganiadau ariannol ar sail eu gwerth trafodiad ac yna fe'u mesurir ar sail eu gwerth teg ar ddyddiad y fantolen. Dangosir symudiadau yng ngwerthoedd teg buddsoddiadau fel enillion a cholledion heb eu gwireddu yn y datganiad o weithgareddau ariannol.

Mae buddsoddiadau yn cynnwys cyfranddaliadau, cronfeydd, arian parod, neu adneuon a ddelir fel buddsoddiadau. Mae'r buddsoddiadau wedi'u cyfyngu i arian parod mewn adneuon mynediad ar unwaith neu gyfnod penodol a buddsoddiadau a ganiateir yn unol â'r polisi buddsoddi a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023.

**vii. Offerynnau Ariannol**

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath sy'n gymwys fel offerynnau ariannol sylfaenol sydd gan yr Elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod i ddechrau yn ôl eu gwerth trafodiad ac yna eu mesur yn ôl eu gwerth setliad.

**viii. Dyledwyr**

Cydnabyddir dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn ôl swm y setliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach a gynigir. Caiff rhagdaliadau eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw ar ôl didynnu unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

**ix. Arian Parod Yn Y Banc Ac Mewn Llaw**

Mae arian parod yn y banc ac mewn llaw yn cynnwys arian parod a buddsoddiadau hynod hylifol byrdymor gydag aeddfedrwydd byr o dri mis neu lai o ddyddiad caffael neu agor y cyfrif cadw neu gyfrif tebyg.

**x. Credydwyr A Darpariaethau Ar Gyfer Rhwymedigaethau**

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Fe'u cydnabyddir pan fydd hi'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Pan fydd rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar gyfer achosion addasrwydd i ymarfer o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a bod modd amcangyfrif y rhwymedigaeth, yna darperir ar gyfer hyn. Bydd cywirdeb y ddarpariaeth yn dibynnu ar y rhagdybiaethau a wneir am hynt achosion unigol a bydd yn destun cryn ansicrwydd.

**xi. Cronfeydd A Chronfeydd Wrth Gefn**

Mae ein holl gronfeydd yn anghyfyngedig a gellir eu gwario yn ôl ein disgresiwn er mwyn helpu i gyflawni ein hamcanion.

Rydym wedi neilltuo cronfeydd dynodedig fel a ganlyn:

- Cronfa achosion cyfreithiol cymhleth – fe'i sefydlwyd er mwyn talu costau annisgwyl achosion cymhleth sy'n codi uwchlaw'r lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer.
- Cronfa strategol – fe'i sefydlwyd i gefnogi prosiectau a mentrau strategol penodol a amlinellir yng nghynllun strategol pum mlynedd a chyllideb y Cyngor Optegol Cyffredinol a thu hwnt.
- Cronfa seilwaith a dadfeiliad – fe'i sefydlwyd er mwyn cronni digon o arian i ddatblygu'r seilwaith ac i dalu costau dadfeiliad pe baem yn gadael y safle presennol.

**xii. Trethiant**

Nid ydym wedi cofrestru ar gyfer TAW a chaiff TAW ar wariant ei thalu fel rhan o gost y nwyddau neu'r gwasanaethau a ddarperir.

**xiii. Lesoedd Gweithredol**

Caiff y rhenti blynyddol eu cynnwys ar y datganiad o weithgareddau ariannol dros gyfnod y les.

**xiv. Buddion I Gyflogeion**

Buddion byrdymor – Caiff buddion byrdymor, gan gynnwys tâl gwyliau, eu cydnabod fel traul yn ystod y cyfnod pan dderbynnir y gwasanaeth.

Buddion terfynu cyflogaeth – Rhoddir cyfrif am fuddion terfynu ar sail gronnus ac yn unol ag FRS 102.

Cynllun pensiwn – Mae'r Cyngor yn cyfrannu at gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig er budd ei gyflogeion o dan gynllun cofrestru awtomatig, a chaiff yr asedau eu gweinyddu gan Royal London. Caiff y cynllun pensiwn ei ddefnyddio ar gyfer holl staff y Cyngor Optegol Cyffredinol. Yn ystod 2022/23, creodd y Cyngor gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig arall gyda Smart Pensions ar gyfer rhai aelodau panel a oedd yn cael eu hystyried yn weithwyr.

Caiff asedau'r cynlluniau eu dal yn annibynnol ar asedau'r Elusen mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Mae'r costau pensiwn sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn cynrychioli'r cyfraniadau a oedd yn daladwy yn ystod y flwyddyn.

| 4. Incwm o weithgareddau elusennol | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ffi cofrestru ac adnewyddu | 10,801 | 10,016 |
| Ffi darparwr Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 15 | 12 |
| **Cyfanswm** | **10,816** | **10,028** |

| 5. Incwm o fuddsoddiad | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Llog o adneuon sefydlog | 176 | 44 |
| Incwm difidend | 235 | 269 |
| **Cyfanswm** | **411** | **313** |

| 6. Gweithgareddau elusennol | Cost Uniongyrchol £'000 | Cost Cymorth £'000 | Cyfanswm 2023/2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer (Nodyn 6a.) | 4,932 | 2,264 | 7,196 |
| Cofrestru | 922 | 521 | 1,443 |
| Addysg | 1,304 | 657 | 1,961 |
| Polisïau a safonau | 510 | 214 | 724 |
| Cyfathrebu | 357 | 246 | 603 |
| **Cyfanswm** | **8,025** | **3,902** | **11,927** |

Ffigurau cymharol isod:

| 6. Gweithgareddau elusennol | Cost Uniongyrchol £'000 | Cost Cymorth £'000 | Cyfanswm 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer (Nodyn 6a.) | 4,381 | 2,198 | 6,579 |
| Cofrestru | 678 | 404 | 1,082 |
| Addysg | 1,190 | 611 | 1,801 |
| Polisïau a safonau | 407 | 166 | 573 |
| Cyfathrebu | 276 | 182 | 458 |
| **Cyfanswm** | **6,933** | **3,561** | **10,494** |

Mae'r tabl canlynol yn dadansoddi'r costau addasrwydd i ymarfer:

| 6a. Addasrwydd i ymarfer gan gynnwys cydymffurfiaeth gyfreithiol | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd cyfreithiol ar ymchwiliadau | 544 | 605 |
| Costau eraill ymchwiliadau | 2,142 | 1,898 |
| Costau gwrandawiadau | 1,735 | 1,335 |
| Cyfryngu mewn anghydfodau | 265 | 252 |
| Cydymffurfiaeth gyfreithiol | 246 | 292 |
| Costau cymorth | 2,264 | 2,198 |
| **Cyfanswm** | **7,196** | **6,579** |

| 7. Costau cymorth | Rheoli £'000 | Llywodraethu £'000 | Cyfleusterau £'000 | Adnoddau Dynol £'000 | Cyllid £'000 | TG £'000 | 2023/2024 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer | 58 | 420 | 658 | 244 | 260 | 624 | 2,264 |
| Cofrestru | 13 | 97 | 152 | 56 | 60 | 143 | 521 |
| Addysg | 17 | 122 | 191 | 71 | 75 | 181 | 657 |
| Polisïau a Safonau | 5 | 40 | 62 | 23 | 25 | 59 | 214 |
| Cyfathrebu | 6 | 46 | 72 | 26 | 28 | 68 | 246 |
| **Cyfanswm** | **99** | **725** | **1,135** | **420** | **448** | **1,075** | **3,902** |

Ffigurau cymharol isod:

| 7. Costau cymorth | Rheoli £'000 | Llywodraethu £'000 | Cyfleusterau £'000 | Adnoddau Dynol £'000 | Cyllid £'000 | TG £'000 | 2022/2023 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Addasrwydd i ymarfer | 75 | 423 | 482 | 315 | 226 | 677 | 2,198 |
| Cofrestru | 14 | 78 | 89 | 58 | 42 | 124 | 404 |
| Addysg | 21 | 118 | 134 | 88 | 63 | 188 | 611 |
| Polisïau a Safonau | 6 | 32 | 36 | 24 | 17 | 51 | 166 |
| Cyfathrebu | 6 | 35 | 40 | 26 | 19 | 56 | 182 |
| **Cyfanswm** | **122** | **685** | **781** | **511** | **367** | **1,096** | **3,561** |

Mae costau llywodraethu yn cynnwys ffioedd a gwariant yr eir iddynt mewn perthynas â'r Cyngor a'r pwyllgorau, ffioedd archwilio mewnol ac allanol a chostau staff sy'n gysylltiedig â chefnogi'r gweithgareddau llywodraethu. Caiff costau cymorth eu dyrannu i weithgareddau gwahanol ar sail niferoedd staff.
Mae manylion y gost llywodraethu sydd wedi'i chynnwys o dan y gost cymorth fel a ganlyn.

Mae ffioedd a threuliau'r aelodau yn cynnwys costau'r Cyngor (ymddiriedolwyr) ac aelodau pwyllgorau.

| **Costau llywodraethu** | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd a threuliau aelodau | 218 | 233 |
| Costau staff | 400 | 241 |
| Ffioedd archwilio allanol | 27 | 21 |
| Ffioedd archwilio mewnol | 27 | 24 |
| Costau llywodraethu eraill | 53 | 130 |
| **Cyfanswm** | **725** | **649** |

| **8. Caiff incwm net am y flwyddyn ei ddatgan ar ôl cyfrifo:** | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ffioedd a delir i archwilwyr allanol – haysmacintyre: | | |
| ffi archwilio allanol | 27 | 24 |
| Ffioedd archwilio mewnol | 27 | 23 |
| Dibrisiant asedau sefydlog | 497 | 156 |

| **9. Costau staff** | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Costau cyflogi staff: | | |
| Cyflogau | 5,072 | 4,502 |
| Setliadau | 73 | 73 |
| Yswiriant gwladol | 523 | 497 |
| Costau pensiwn | 442 | 395 |
| **Cyfanswm** | **6,110** | **5,467** |

| **Nifer y staff ar gyfartaledd** | 2023/2024 | 2022/2023 |
|---|---|---|
| Swyddfa'r Prif Weithredwr | 1 | 1 |
| Tîm rheoli | 4 | 4 |
| Addasrwydd i ymarfer | 36 | 38 |
| Cofrestru | 10 | 9 |
| Strategaeth | 22 | 20 |
| Llywodraethu, cydymffurfiaeth, adrodd ar berfformiad | 7 | 6 |
| Gwasanaethau corfforaethol (Cyfleusterau, Adnoddau Dynol, Cyllid, TG) | 17 | 18 |
| Newid | 7 | 7 |
| **Cyfanswm** | **104** | **102** |

Nifer y staff yr oedd eu henillion trethadwy yn perthyn i fandiau cyflog uwch oedd:

| | 2023/2024 | 2022/2023 |
|---|---|---|
| £60,000 ond llai na £70,000 | 11 | 5 |
| £70,000 ond llai nag £80,000 | 2 | 4 |
| £80,000 ond llai na £90,000 | 0 | 2 |
| £90,000 ond llai na £100,000 | 3 | - |
| £100,000 ond llai na £110,000 | 2 | 1 |
| £110,000 ond llai na £120,000 | 1 | - |
| £130,000 ond llai na £140,000 | 0 | 1 |
| £140,000 ond llai na £150,000 | 1 | - |

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Cyngor £147,211 ar gyfer 20 o aelodau o staff yn y categori hwn (£91,441 ar gyfer 11 o aelodau o staff yn 2022/23) i gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r ymddiriedolwyr (aelodau'r Cyngor) yn ystyried bod y tîm uwch-reolwyr (gweler tudalen 28, MANYLION CYFEIRIO A GWEINYDDOL) yn bersonél rheoli allweddol.
Hefyd, caiff ffioedd eu talu a chaiff treuliau eu had-dalu i'r ymddiriedolwyr am deithio a chynhaliaeth. Mae'r manylion yn nhabl 10. Ni chaiff unrhyw symiau eu talu'n uniongyrchol i drydydd partïon nad ydynt eisoes wedi'u datgelu yn nhabl 10.

Mae'r taliadau a'r buddion a dderbyniwyd gan bersonél rheoli allweddol fel a ganlyn:

| Personél rheoli allweddol | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflog gros | 555 | 505 |
| Cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr | 67 | 60 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | 56 | 48 |
| Manteision | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **679** | **614** |

| 10. Treuliau ymddiriedolwyr | Fees £ | Expenses £ | 2023/2024 Total £ |
|---|---|---|---|
| Lisa Gerson | 13,962 | 174 | 14,136 |
| David Parkins* | 13,380 | - | 13,380 |
| Sinead Burns | 13,962 | 968 | 14,930 |
| Clare Minchington | 16,462 | 192 | 16,654 |
| Roshni Samra | 13,962 | 55 | 14,017 |
| Josie Forte | 13,962 | 346 | 14,308 |
| Tim Parkinson | 13,962 | 294 | 14,256 |
| Anne Wright | 50,000 | - | 50,000 |
| Mike Galvin | 13,962 | 217 | 14,179 |
| Frank Munro | 13,962 | 437 | 14,399 |
| Ken Gill | 13,962 | 600 | 14,562 |
| William Stockdale | 13,962 | 532 | 14,494 |
| Hema Radhakrishnan** | 582 | - | 582 |
| **Cyfanswm** | **206,082** | **3,815** | **209,897** |
| **Nifer yr ymddiriedolwyr** | | | **12** |

* Wedi ymddeol yn ystod y flwyddyn ** Wedi'u penodi yn ystod y flwyddyn

Ffigurau cymharol isod

| 10. Treuliau ymddiriedolwyr | Ffioedd £ | Treuliau £ | 2022/2023 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Lisa Gerson | 13,962 | 211 | 14,173 |
| Glenn Tomison * | 12,346 | 240 | 12,587 |
| Rosie Glazebrook * | 10,472 | - | 10,472 |
| David Parkins | 13,962 | - | 13,962 |
| Sinead Burns | 13,962 | 1,198 | 15,160 |
| Clare Minchington | 14,587 | 425 | 15,012 |
| Roshni Samra | 13,962 | 42 | 14,004 |
| Josie Forte | 13,962 | 115 | 14,077 |
| Tim Parkinson | 13,962 | 464 | 14,426 |
| Anne Wright | 50,000 | - | 50,000 |
| Mike Galvin | 13,962 | 398 | 14,360 |
| Frank Munro | 13,962 | 389 | 14,351 |
| Ken Gill** | 3,491 | - | 3,491 |
| William Stockdale** | 3,491 | 457 | 3,947 |
| **Cyfanswm** | **206,082** | **3,938** | **210,020** |

Mae Deddf Optegwyr 1989, atodlen 1, paragraff 11 (2) b yn caniatáu i ni dalu ffioedd i ymddiriedolwyr am fynychu cyfarfodydd y Cyngor.

| 11. Asedau sefydlog diriaethol | Dodrefn a chyfarpar swyddfa £'000 | Adnewyddu £'000 | Caledwedd TG £'000 | Meddalwedd TG £'000 | Gwaith cyfalaf ar y gweill £'000 | Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cost ar 1 Ebrill 2023 | 304 | 1,057 | 316 | 1,459 | 65 | 3,201 |
| Ychwanegu: Cost ychwanegiadau | - | - | 72 | - | 27 | 99 |
| Llai: Gwarediadau | - | - | - | - | - | - |
| Trosglwyddiadau | - | - | 59 | - | (59) | - |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2024** | **304** | **1,057** | **447** | **1,459** | **33** | **3,300** |
| | | | | | | |
| Llai: Dibrisiant | | | | | | |
| Fel yr oedd ar 1 Ebrill 2023 | (217) | (541) | (284) | (1,417) | - | (2,459) |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | (30) | (411) | (32) | (24) | - | (497) |
| Gwarediadau | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm ar 31 Mawrth 2024** | **(247)** | **(952)** | **(316)** | **(1,441)** | **-** | **(2,956)** |
| | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2024** | **57** | **105** | **131** | **18** | **33** | **344** |
| | | | | | | |
| **Gwerth net ar y llyfrau ar 31 Mawrth 2023** | **87** | **517** | **32** | **42** | **65** | **742** |

| 12. Buddsoddiadau | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| Buddsoddiadau a ddygwyd ymlaen | 8,537 | 9,176 |
| Ychwanegiadau | 2,405 | 2,730 |
| Gwarediadau | (2,424) | (2,811) |
| Enillion a wireddwyd | (33) | (126) |
| Enillion/ (colledion) nas gwireddwyd | 656 | (432) |
| Buddsoddiadau a gariwyd ymlaen | 9,141 | 8,537 |
| Arian parod | 125 | 157 |
| **Cyfanswm y portffolio** | **9,266** | **8,694** |

Mae'r portffolio cyfan yn cynnwys arian parod a ddelir gan reolwyr ecwiti. Yn ystod y flwyddyn, aethpwyd i gostau o £44,478 (£44,110 yn 2022/23) fel ffioedd rheoli buddsoddiadau ac maent wedi'u datgelu yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel Codi Arian.

| 13. Dyledwyr | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Rhagdaliadau | 441 | 289 |
| Dyledwyr eraill | 13 | 9 |
| Incwm cronnus | 221 | 135 |
| **Cyfanswm** | **675** | **433** |

| 14. Credydwyr: Symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Credydwyr masnach | 139 | 36 |
| Incwm gohiriedig (nodyn 14a) | 10,931 | 10,078 |
| Croniadau | 805 | 853 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 155 | 155 |
| Credydwyr eraill | 101 | 94 |
| **Cyfanswm** | **12,131** | **11,216** |

| 14a. Incwm gohiriedig | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill | 10,078 | 9,303 |
| Swm a ohiriwyd yn ystod y flwyddyn | 11,016 | 10,127 |
| Swm a ryddhawyd i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol | (10,163) | (9,352) |
| **Cyfanswm** | **10,931** | **10,078** |

Mae'r croniadau yn cynnwys croniad rhent sy'n gwneud cyfanswm o £113,489 (£99,856 yn 2022/23).
Mae incwm o ffioedd adnewyddu cofrestreion a gafwyd ymlaen llaw wedi'i ohirio a chaiff ei ryddhau fel incwm yn 2024/25.

| 15. Offerynnau Ariannol | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar sail gwerth teg | 9,266 | 8,694 |
| Asedau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | 10,815 | 10,348 |
| Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio | (1,200) | (1,138) |
| **Asedau ariannol net wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio** | **18,881** | **17,904** |

a) Mae asedau ariannol wedi'u mesur ar sail gwerth teg yn cynnwys buddsoddiadau. (b) Mae asedau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys adneuon byrdymor ac arian parod mewn llaw, dyledwyr masnach, dyledwyr eraill, ac incwm cronnus.
(c) Mae rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar sail cost wedi'i hamorteiddio yn cynnwys credydwyr masnach, credydwyr eraill, a chroniadau.

| 16. Cronfeydd | 2023 £'000 | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Trosglwyddiadau/ enillion/colledion £'000 | 2024 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | | |
| **Cronfeydd dynodedig** | | | | | |
| Cronfa costau cyfreithiol | 700 | - | (82) | 82 | 700 |
| Cronfa strategol | 2,000 | - | (919) | 1,515 | 2,596 |
| Cronfa COVID-19 | 900 | - | - | (900) | - |
| Cronfa seilwaith/dadfeiliadau | 1,250 | - | - | - | 1,250 |
| **Cyfanswm y cronfeydd dynodedig** | **4,850** | **-** | **(1,001)** | **697** | **4,546** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd cyffredinol** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | 4,007 | 11,227 | (10,970) | (75) | 4,189 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | **8,857** | **11,227** | **(11,971)** | **622** | **8,735** |

Ffigurau cymharol isod.

| 16. Cronfeydd | 2022 £'000 | Incwm £'000 | Gwariant £'000 | Trosglwyddiadau/ enillion/colledion £'000 | 2023 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cronfeydd anghyfyngedig** | | | | | |
| **Cronfeydd dynodedig** | | | | | |
| Cronfa costau cyfreithiol | 700 | - | (114) | 114 | 700 |
| Cronfa strategol | 2,000 | - | (1,181) | 1,181 | 2,000 |
| Cronfa COVID-19 | 1,800 | - | - | (900) | 900 |
| Cronfa seilwaith/dadfeiliadau | 1,250 | - | - | - | 1,250 |
| **Cyfanswm y cronfeydd dynodedig** | **5,750** | **-** | **(1,295)** | **395** | **4,850** |
| | | | | | |
| **Cronfeydd cyffredinol** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant | 3,863 | 10,340 | (9,243) | (954) | 4,007 |
| **Cyfanswm y cronfeydd** | **9,613** | **10,340** | **(10,539)** | **(558)** | **8,857** |

Mae'r holl gronfeydd wrth gefn yn anghyfyngedig. Diben y gronfa costau cyfreithiol yw lliniaru'r risg y bydd achosion cymhleth uchel eu gwerth yn codi uwchlaw'r lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer.  Caiff y gronfa strategol ei dal er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau a mentrau strategol penodol a amlinellir yng nghynllun strategol y Cyngor Optegol Cyffredinol. Penderfynwyd yn yr adolygiad diweddaraf o'r polisi cronfeydd wrth gefn a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2023 nad oes angen cronfa COVID-19 mwyach.  Sefydlwyd y gronfa seilwaith/dadfeiliadau er mwyn cronni arian i dalu costau sy'n gysylltiedig â dadfeiliad ac i ddatblygu'r seilwaith y bydd ei angen os byddwn yn gadael y safle presennol pan ddaw cyfnod y les i ben.

Yn ystod y flwyddyn, defnyddiwyd £82k o arian o'r gronfa costau cyfreithiol ar gyfer costau cyfreithiol cymhleth a oedd yn gysylltiedig â hwyluso achosion. Cafodd cyfanswm o £919k a wariwyd ar brosiectau strategol ei ariannu drwy'r gronfa strategol. Ar ddiwedd y flwyddyn, trosglwyddwyd arian o'r gronfa gyffredinol er mwyn cynyddu'r gronfa costau cyfreithiol i £700k a'r gronfa strategol i £2,596k, gan alluogi cyllid ar gyfer prosiectau yn y dyfodol.

| 17. Dadansoddiad o asedau net fesul cronfa | Cronfeydd anghyfyngedig £'000 | Cyfanswm 2023/2024 £'000 | Cyfanswm 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|---|
| Asedau sefydlog diriaethol | 344 | 344 | 742 |
| Buddsoddiadau | 9,266 | 9,266 | 8,694 |
| Asedau cyfredol | 11,256 | 11,256 | 10,637 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | (12,131) | (12,131) | (11,216) |
| **Cyfanswm yr asedau net Total net assets** | **8,735** | **8,735** | **8,857** |

**18. Ymrwymiadau pensiwn**

Rydym yn gweithredu cynlluniau pensiwn cofrestru awtomatig cyfraniadau diffiniedig ar ran cyflogeion a gweithwyr. Caiff asedau'r cynlluniau hyn eu dal ar wahân i asedau'r Cyngor mewn cronfeydd a gaiff eu gweinyddu'n annibynnol. Cyfanswm y gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn oedd £441,600 (£394,575 yn 2022/23). Roedd gwerth £70,804 o gyfraniadau heb eu talu yn 2023/24 (£18,665 yn 2022/23) wedi'u cynnwys yn y fantolen.

**19. Ymrwymiadau o dan brydlesi gweithredol**

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr elusen y taliadau les canlynol i ddod yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredol.

| Tir ac adeiladau | 2023/2024 £'000 | 2022/2023 £'000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 647 | 620 |
| Mewn dwy i bum mlynedd yn gynhwysol | - | 608 |
| **Mewn mwy na phum mlynedd** | - | - |

| Les cyfarpar swyddfa | 2023/24 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| O fewn blwyddyn | 3 | 25 |
| Mewn dwy i bum mlynedd yn gynhwysol | 9 | - |

Cyfanswm yr holl brydlesi gweithredol yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar 31 Mawrth 2024 oedd £679,168 (£624,407 yn 2022/23).

**20. Datgelu ar gyfer digwyddiadau nad ydynt yn arwain at addasiadau**
Fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2024, mae gan y Cyngor rwymedigaeth ddigwyddiadol o £110k sy'n ymwneud â hawliadau a allai ddeillio o adolygiad o gontractau aelodau. Cynhelir yr adolygiad hwn yn dilyn achosion cyfreithiol diweddar sy'n effeithio ar aelodau rheoleiddwyr gofal iechyd a darpariaethau yswiriant gwladol, pensiwn a gwyliau a wneir ar gyfer aelodau. Wrth gyfrifo hyn, gallwn gadarnhau nad oes dim honiadau wedi cael eu gwneud yn erbyn y Cyngor Optegol Cyffredinol hyd yma. Mae hyn yn gyson â llawer o reoleiddwyr iechyd eraill. Felly, mae hyn yn golygu bod y rhwymedigaeth yn bosibl ond nid yn debygol. Nid yw'r rhwymedigaeth ddigwyddiadol wedi cael ei chydnabod fel credydwr ar 31 Mawrth 2024 oherwydd, ar y dyddiad hwnnw, nid oedd modd mesur y swm yn ddibynadwy ac nid oedd digon o dystiolaeth i awgrymu y caiff unrhyw hawliadau eu gwneud yn erbyn y Cyngor Optegol Cyffredinol.

**21. Trafodiadau partïon cysylltiedig**
Yn ystod y flwyddyn, telir ffioedd a gwariant cysylltiedig i aelodau'r Cyngor drwy gyflogres y Cyngor (gweler tabl deg am fanylion).

Datganodd yr aelodau canlynol o'r Cyngor drafodiadau partïon cysylltiedig yn ystod y flwyddyn:
Mae gwraig David Parkins, Dr Susan Blakeney, yn archwiliwr achos. Yn ystod y cyfnod pan oedd David yn aelod o'r Cyngor, gwnaethom dalu £4,665 mewn ffioedd i Dr Blakeney am ei gwasanaethau.

Ni wnaed unrhyw drafodion partïon cysylltiedig eraill yn y flwyddyn bresennol na'r flwyddyn flaenorol.

| 22. Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net | Ar 1 Ebrill 2023 £'000 | Llifau arian parod £'000 | Ar 31 Mawrth 2024 £'000 |
|---|---|---|---|
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | | | |
| Arian parod | 1,253 | (595) | 658 |
| Yr hyn sy'n cyfateb i arian parod | 8,950 | (1,500) | 7,450 |
| **Cyfanswm** | **10,203** | **(2,095)** | **8,108** |

ISBN: 978-1-5286-5003-8
E-Number: E03138992